# Hybu Cig Cymru-Meat Promotion Wales

## Cwmni Cyfyngedig drwy Warant

## Rhif Cofrestru'r Cwmni: 4635113

## Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023

**Cynnwys**

**Tudalen:**

**1-9.** **Adroddiad Blynyddol**

**10-17.** **Adroddiad y Cyfarwyddwyr**

**18-20.** **Adroddiad Taliadau**

**21-25.** **Adroddiad yr Archwilydd**

**26.** **Datganiad Gwariant Cynhwysfawr**

**27-28.** **Mantolen**

**29-30.** **Datganiad Llif Arian**

**30-45.** **Nodiadau a Pholisïau Cyfrifyddu**

Mae'r Cyfarwyddwyr yn cyflwyno ynghlwm eu hadroddiad blynyddol, ynghyd â datganiadau ariannol archwiliedig y cwmni, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023. Ar gyfer naratif yr adroddiad hwn, defnyddir 'HCC' yn lle Hybu Cig Cymru-Meat Promotion Wales er mwyn bod yn gryno.

**Cyflwyniad**

HCC yw'r corff strategol statudol sy'n hybu ac yn datblygu diwydiant cig eidion, cig oen a phorc Cymru. Ei nod yw datblygu marchnadoedd proffidiol a chynaliadwy er budd holl randdeiliaid y gadwyn gyflenwi yng Nghymru.

Mae HCC yn gwneud gweithgareddau ymchwil a datblygu, yn rhannu gwybodaeth ac yn cefnogi hyfforddiant sy'n berthnasol i bob rhan o'r gadwyn gyflenwi. Mae'n gwneud hyn er mwyn sicrhau bod diwydiant cig coch Cymru mewn sefyllfa i wella ansawdd, bod yn fwy cost-effeithiol ac ychwanegu gwerth at gynhyrchion cig coch Cymru ym mhob rhan o'r diwydiant.

Gartref, mae HCC yn gweithio gydag amryfal adwerthwyr, cigyddion annibynnol a darparwyr gwasanaethau bwyd gan gynnal rhaglenni hyrwyddo rheolaidd ar gyfer Cig Oen Cymreig Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig neu PGI, Cig Eidion Cymru PGI a phorc o Gymru. Mewn gwledydd eraill, rôl HCC yw datblygu'r marchnadoedd sydd eisoes yn bodoli a helpu i sefydlu marchnadoedd newydd ar gyfer cig coch o Gymru. Mae HCC hefyd yn gweithredu fel gwarcheidwad i frandiau Cig Oen PGI a Chig Eidion PGI.

HCC yw "Canolfan Wybodaeth" y diwydiant lle caiff gwybodaeth ei chasglu a'i lledaenu ar draws y diwydiant a'r llywodraeth. Mae HCC hefyd yn hysbysu'r rheini sy'n talu'r ardoll, rhanddeiliaid a'r cyhoedd yng Nghymru ynghylch y cyfraniad positif a wna'r diwydiant cig coch i gymdeithas ac economi Cymru ac ynghylch rôl HCC yn hybu ac yn datblygu'r diwydiant.

Nod yr adroddiad blynyddol hwn yw rhoi crynodeb byr, cynrychiadol o nodau strategol cyfredol HCC, y prif risgiau rhag cyflawni'r amcanion, a'i berfformiad yn erbyn y rhain yn ystod y flwyddyn.

**Adroddiad y Prif Weithredwr**

Roedd goresgyniad Rwsia o'r Wcráin, argyfwng costau byw a'i effaith ar fusnesau a defnyddwyr; biliau ynni uchel, ac haf anarferol o sych, yn darparu set o heriau allanol anodd i'r diwydiant ffermio yng Nghymru yn 2022-23.
Helpodd y ffactorau eithriadol hyn i gyfyngu ar ymdrechion adfer penderfynol diwydiant cydnerth yn dilyn y ddwy flynedd fasnachu flaenorol eithriadol pan oedd Covid yn dominyddu bywyd bob dydd yng Nghymru a'r byd.
Serch hynny, ac, er gwaethaf yr anawsterau hyn, gwnaed datblygiadau nodedig.
Cryfhawyd y galw am gig coch yn y DU ac atgyfnerthwyd yr enillion a welwyd yn sector manwerthu y DU gan gigyddion lleol ar lefelau uwch nag yn hinsawdd cyn Covid yn 2019. Yn rhyngwladol, pasiodd gwerth allforion cig oen a chig eidion o Gymru £250m yn 2022 yn ôl data masnach CThEF yn y DU. Cyfanswm gwerth allforion Cig Oen Cymru yn 2022 oedd £171.5m. Roedd allforion i'r partneriaid Ewropeaidd mwyaf – Ffrainc, yr Almaen a Gwlad Belg – i gyd i fyny ar 2021, gyda marchnad Ffrainc yn unig yn werth £77m (amcangyfrif) i ffermwyr defaid Cymru.
Fe wnaeth gwerth allforion cig eidion o Gymru hefyd neidio bron i 50% – o £50.9m yn 2021 i £75.6m yn 2022 – gan adlewyrchu ffactorau masnach a chyfradd gyfnewid cynyddol. Cofnodwyd

twf nodedig mewn allforion i Ffrainc a'r Iseldiroedd, yn ogystal â rhai marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg fel Japan.
Cyflawnodd ymgyrch hir a phenderfynol gan HCC i godi cyfyngiadau Llywodraeth yr UDA ar fewnforio cig oen o'r DU ei nod ym mis Rhagfyr y llynedd. Dilynodd proses o asesu gweithfeydd prosesu unigol ac anfonodd ffatri yng Nghymru lwyth cychwynnol y DU ar ôl dod y cyntaf i gael cymeradwyaeth gan awdurdodau America.

Yn y cartref, mae costau tanwydd, gwrtaith a bwyd anifeiliaid uwch, chwyddiant defnyddwyr a chostau ynni uchel iawn wedi creu amodau masnachu anarferol o anodd ond, trwy gydol y flwyddyn heriol hon, ymatebodd HCC yn gyflym ac yn hyblyg i'r amgylchiadau economaidd sy'n newid yn gyflym.

Cafodd ei brif ganllaw strategol - *Vision 2025* - ei adnewyddu a'i ddiweddaru, gan alluogi'r diwydiant i ymateb yn gyflym, yn effeithiol ac yn gydgysylltiedig i'r heriau a'r cyfleoedd newydd a ddaeth i'r amlwg. Y flwyddyn nesaf, bydd HCC yn dechrau ailystyried strategaeth *Vision 2025*, gan ragweld dogfen olynol a fydd yn addas o ran cyflawni ar gyfer y diwydiant yn y dyfodol. Unwaith eto, bydd yn cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad â'r holl randdeiliaid ar draws y gadwyn gyflenwi.

Nid oedd HCC ei hun wedi'i ynysu rhag y ffactorau economaidd effaith uchel hyn. Yn dilyn cyfnod helaeth o geisio barn ffermwyr a rhanddeiliaid, cymeradwywyd argymhelliad Bwrdd Cyfarwyddwyr HCC i newid cyfraddau ardoll er mwyn cwrdd â'r heriau newydd gan Weinidog Materion Gwledig Llywodraeth Cymru, Lesley Griffiths AS.

Gan ddechrau ar ddechrau'r flwyddyn ariannol newydd, sef 1 Ebrill 2023, bydd cyfraddau ardoll yn codi yn unol â chwyddiant. Dyma'r cynnydd cyntaf yn Ardoll Cig Coch Cymru ers 2011.
Mae HCC yn ddiolchgar i'n ffermwyr rhanddeiliaid, a'r rheini yn y gadwyn gyflenwi ehangach, am roi eu barn gefnogol ar y newidiadau - ac yna i'r Gweinidog am gytuno i argymhelliad y Bwrdd ynghylch y cyfraddau ardoll. Bydd y cytundeb hwn yn galluogi HCC i gynllunio ymlaen â sicrwydd er mwyn sicrhau gwell marchnata i'r sector cig coch yng Nghymru, gwell effeithlonrwydd yn y gadwyn gyflenwi, a hyrwyddo mwy o gynaladwyedd ar draws y diwydiant.

Roedd cyfleoedd masnach diamod, a'r gallu i'r DU wneud ei chytundebau ei hun â phartneriaid byd-eang, fel y cytundeb ag UDA, yn waddol cadarnhaol o Brexit.
Parhaodd biwrocratiaeth ychwanegol i gael effaith, ond y gobaith yw y bydd y prosesau digideiddio llawn sydd ar y gorwel yn lleddfu'r sefyllfa. Fodd bynnag, parhaodd y diwydiant i ddioddef gyda phrinder llafur ac yr oedd rhywfaint o dystiolaeth bod mewnforion, yn ystod chwe mis olaf y flwyddyn, yn achosi rhywfaint o anwadalrwydd i brisiau yn y marchnadoedd domestig.

Gwelodd cyfanswm cyfaint y cig defaid ffres a rhewedig a fewnforiwyd i'r Deyrnas Unedig yn 2022 gynnydd sylweddol o 17% i 63,800 tunnell. Roedd y cyfeintiau a dderbyniwyd o'r ffynhonnell fwyaf o gig defaid a fewnforiwyd - Seland Newydd - 3% yn uwch na 2021. Yn arwyddocaol, fodd bynnag, wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen, cyrhaeddodd llawer mwy na'r arfer o gyfaint ar ffurf cynnyrch wedi'i rewi yn hytrach na ffres. Roedd cig oen wedi'i rewi yn cyfrif am 86% o gyfanswm mewnforion cig defaid ffres ac wedi rhewi o Seland Newydd, ond yn 2021 roedd y ffigur cyfatebol yn 57%.

Parhaodd materion diogelwch bwyd ehangach i bryderu rhanddeiliaid ar ôl i'r DU weld prinder rhai nwyddau traul yn gynnar yn y flwyddyn a amlygodd ein hunangynhaliaeth o 60%, ac felly ein dibyniaeth ddomestig sylweddol, ar fwyd wedi'i fewnforio.

Cynhaliwyd ymchwiliadau hefyd gan yr Uned Troseddau Bwyd Cenedlaethol i rai cynhyrchion cig a fewnforiwyd o dramor a oedd yn cael eu labelu'n ffug fel rhai ‘Prydeinig'. Mae HCC bob amser yn wyliadwrus a byddwn yn parhau â'n archwiliadau rheolaidd o broseswyr bwyd ac yn hyrwyddo ein buddsoddiad ugain mlynedd mewn system olrhain sy'n arwain y byd, ar y cyd â’n partneriaid, Oritain.
O fis Ionawr 2024, bydd trefniadau newydd ar gyfer Cynlluniau Dynodi Daearyddol yn dod i rym yn llawn. Yn y DU, dilynir cynllun GI y DU tra byddwn yn parhau i ddefnyddio'r cynllun GI Ewropeaidd sefydledig ar gyfer marchnadoedd yr UE.

Mae newid sylweddol arall, ôl-Brexit, sydd ar fin digwydd, yn cynnwys cyflwyno'r polisi cymorth amaethyddol cenedlaethol newydd i ddisodli'r ddarpariaeth ariannu Ewropeaidd flaenorol. Mae Llywodraeth Cymru, mewn deialog â holl randdeiliaid y diwydiant, yn gweithio ar hyn o bryd i sicrhau ateb sy'n sicrhau'r cymorth mwyaf posibl yn seiliedig ar y tair colofn ddiwydiant sylfaenol a hanfodol, sef yr economi, yr amgylchedd a bywyd cymdeithasol a chymunedol.

Roedd y mecanwaith ar gyfer trosglwyddo arian o dan Ddychweliad Ardoll yn gwbl weithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, ar ôl i’r cytundeb wedi'i glustnodi dros dro rhwng tri bwrdd ardoll y DU ddod i ben, ac mae'r trefniant newydd wedi bod yn gweithio'n dda i'r holl bartïon perthnasol.

Roedd archwiliadau ac adroddiadau allanol yn cadarnhau enw da HCC am reolaeth ariannol a threfniadau llywodraethu darbodus, gan roi'r sefydliad ar lwyfan cadarn iawn, yn barod i ymateb i amgylchedd sy'n newid o hyd.

Rwy'n ddiolchgar i Gadeirydd HCC, Cath Smith, a'n Bwrdd Cyfarwyddwyr gweithgar am eu cyfraniadau cefnogol, medrus ac arloesol yn ystod blwyddyn o amgylchiadau masnachu heriol ac anodd.

## Trosolwg Perfformiad

Adolygwyd nodau strategol HCC yn ôl yn 2017-18, gan arwain at lansio dogfen newydd o'r enw 'Gweledigaeth 2025'. Mewn cylch gwaith statudol digyfnewid, diffinnir nodau allweddol y sefydliad fel a ganlyn:-

1. Gosod cig coch o Gymru fel cynnyrch premiwm.
2. Datblygu cyfleoedd masnachu yn yr UE ar gyfer cig coch Cymru.
3. Sicrhau'r defnydd mwyaf posibl o cig coch o Gymru ym Mhrydain.
4. Chwilio am ddefnyddwyr newydd ar gyfer cig coch Cymru yn fyd-eang mewn marchnadoedd sy'n bodoli.
5. Sicrhau canran uwch o allforion cig coch Cymru y tu allan i'r UE.
6. Datblygu diwydiant cig coch Cymru sydd yn gystadleuol.
7. Lleihau effaith cynhyrchu a phrosesu cig coch Cymru ar yr hinsawdd, yr amgylchedd a gwastraff.
8. Cynllunio wrth gefn o ran masnachu, cynhyrchu a phrosesu yn y dyfodol ar ôl Brexit.
9. Cyfathrebu effeithiol ledled y diwydiant i sicrhau undod o ran bwriad.

Mae *Vision 2025* wedi cael ei hailarfarnu a'i hadnewyddu bob blwyddyn ers hynny gan HCC a'i randdeiliaid i alluogi'r diwydiant i addasu a mireinio ei weithgaredd i fodloni gofynion grymoedd mewnol ac allanol cyffredin.

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol newydd ar 1 Ebrill, bydd cyfraddau ardoll yn cael eu cynyddu yn unol â chwyddiant. Bydd hyn yn golygu 6c ychwanegol ar ardoll y ffermwyr ar gyfer defaid a 2c ar gyfer proseswyr, a chynnydd cymesur o 40c yn yr ardoll gwartheg ar gyfer ffermwyr, a 12c ar gyfer proseswyr. Yn 2022-23, parhaodd y trefniadau Dychweliad Ardoll ac roedd hyn yn galluogi HCC i adennill refeniw o'r ardoll cynhyrchwyr ar anifeiliaid a fagwyd yng Nghymru ond a laddwyd yn Lloegr neu'r Alban.

Yn ogystal, derbyniodd HCC gyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru drwy Rhaglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, a ariennir drwy Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru, er mwyn cyflawni amcanion i ddatblygu'r diwydiant a chynaliadwyedd.

## Ystyriaethau a risgiau allweddol

Mae HCC yn cynnal cofrestr risg sy'n cael ei hadolygu'n rheolaidd. Fel yn y flwyddyn flaenorol, pan ysgogodd Covid ail-werthusiadau sylweddol, mae blwyddyn 2022-23 wedi cael ei hailystyried yn rheolaidd yng ngoleuni'r materion allanol eithriadol a restrir uchod.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i sicrhau datrysiad sy'n disodli'r cynllun cymorth Ewropeaidd blaenorol ar gyfer ffermwyr.

Parhaodd y Cytundebau Masnach Rhydd (FTAs) a darwyd gydag Awstralia a Seland Newydd i gynnig ychydig o gyfleoedd ond maent yn dal i gynnwys risgiau tymor hir o ran effeithiau cyflenwi a chystadleuaeth gynyddol gan fewnforion i'r farchnad ddomestig.

Mae pryder cynyddol ynghylch cynaliadwyedd a'r amgylchedd yn fater amlwg cyson, y mae HCC wedi parhau i ymateb iddo gyda safle arwain cryf a'i system gymorth fewnol “nid busnes fel arfer”, ymgyrchoedd marchnata defnyddwyr a rhaglen o gyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Ategwyd hyn gan ddadansoddiad gwyddonol annibynnol er mwyn darparu cefnogaeth yn seiliedig ar dystiolaeth i'r diwydiant ar y stori gadarnhaol o gynaliadwyedd cynhyrchu cig coch Cymru. Mae mwy o'r gweithgaredd hwn yn dilyn yn y *Dadansoddiad Perfformiad*.

Parhaodd heriau tymor hir yn ymwneud â strwythur y diwydiant; mae'r rhain yn cynnwys nifer fawr o fusnesau bach iawn fel cynhyrchwyr cynradd a heriau i hyfywedd proseswyr, mawr a bach.

**Dadansoddi Perfformiad**

Fel rhan o’r broses o greu cynlluniau busnes, bydd HCC yn datblygu Cynllun Corfforaethol tair blynedd yn unol â ‘*Vision 2025*’. Caiff dangosyddion perfformiad allweddol (KPIs) eu datblygu i fesur cynnydd yn erbyn yr amcanion hyn, ac adroddir arnynt yn rheolaidd gerbron Bwrdd y Cyfarwyddwyr a Gweinidogion Cymru. Mae'r adran hon yn crynhoi'r gweithgareddau y mae HCC wedi'u gwneud mewn cysylltiad â chyflawni’r amcanion.

Parhaodd strategaethau marchnata defnyddwyr digidol yn y DU i fod yn llwyddiannus i HCC. Roedd amrywiaeth o gogyddion enwog wedi’u cynnwys, a ryseitiau gan ddylanwadwyr a oedd yn cynnwys datrysiadau cig cost-effeithiol ar gyfer y marchnadoedd targed mewn ymateb i’r argyfwng costau byw. Yn ogystal, hyrwyddwyd ystod o ddeunyddiau sy'n tynnu sylw at gymwysterau amgylcheddol a chynaliadwyedd cig coch Cymru.

Cynhaliwyd nifer o ymgyrchoedd hyrwyddo tymhorol, gan gynnwys gweithgareddau ar y cyd ledled y DU mewn cysylltiad ag Wythnos Caru Cig Oen yn gynnar ym mis Medi, a chyfnodau penodol o hyrwyddo mewn cysylltiad â brandiau o Gymru, yn benodol ‘Diwrnod Cig Oen’ ar 1 Awst, hysbysebion cig eidion yn ystod Cwpan Pêl-droed y Byd yn Qatar, ac ymgyrchoedd hyrwyddo Porc o Gymru, gan gynnwys cystadleuaeth Selsig Porc Gorau.

Yn 2022-23, sefydlwyd partneriaethau pellach gyda nifer o fanwerthwyr i hyrwyddo Cig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru, a pharhawyd i gynhyrchu deunyddiau marchnata ar gyfer cigyddion annibynnol. Roedd cyfran fawr o fanwerthwyr amlycaf y DU yn stocio Cig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru ac yn ymgysylltu â gweithgareddau hyrwyddo ar wahanol adegau yn ystod y flwyddyn.

Er enghraifft, cynhaliodd nifer o fanwerthwyr ymgyrchoedd hyrwyddo ar-lein ar draws sianeli cyfryngau cymdeithasol a digidol i hyrwyddo brandiau Cig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru a, gyda chefnogaeth HCC, cyflwynodd un arall hysbysebion radio yn ei siop. Defnyddiodd llawer o fanwerthwyr bwynt gwerthu a/neu ddeunyddiau pecynnu a ddarperwyd gan HCC i godi ymwybyddiaeth o'r brandiau yn y man gwerthu.

Mae cefnogaeth i wasanaethau bwyd wedi ailddechrau'n llawn yn y cyfnod ar ôl Covid, gyda phresenoldeb mewn nifer o ddigwyddiadau masnach gwasanaethau bwyd wyneb yn wyneb, a gosod ymgyrch hysbysebu Cig Oen Cymru ymroddedig mewn llyfrynnau cyfanwerthwyr.

Mae HCC wedi parhau i fynychu ystod o sioeau defnyddwyr gan ddarparu cyfleoedd samplu ac ysbrydoliaeth rysáit i dargedu defnyddwyr trwy gydol y flwyddyn. Yn ogystal, mae'r digwyddiadau

hyn wedi darparu cyfleoedd pellach i ddenu tanysgrifwyr cylchlythyr, gyda chronfa ddata ‘Teulu Cig Oen Cymru’ bellach yn cynnwys 37,000 o danysgrifwyr ymgysylltiedig.
Datgelodd gwaith ymchwil annibynnol i ganfyddiadau defnyddwyr o Gig Oen Cymru fwy o ymwybyddiaeth o'r brand flwyddyn ar ôl blwyddyn, gyda metrigau canfyddiad cadarnhaol o ran ei ansawdd.
Yn 2022-23, cyflwynodd HCC raglen gyfathrebu a oedd yn targedu gweithwyr iechyd ac addysg proffesiynol, gan ddefnyddio'r gyfres wedi'i hadnewyddu o adnoddau print a digidol Iechyd ac Addysg. Arweiniodd digwyddiadau a marchnata partneriaeth at fwy o ddosbarthu a hefyd lawrlwytho'r deunyddiau hyn. Gellir dod o hyd iddynt yn edmeathub.wales / hwbcigcoch.cymru.

Roedd galw mawr am gig coch ym Mhrydain yn ystod pandemig Covid. Fodd bynnag, roedd ffactorau allanol, gan gynnwys chwyddiant sy'n cynyddu'n gyflym a dychwelyd i batrymau siopa cyn y pandemig, yn golygu bod yr enillion sector blaenorol hyn o dan bwysau. Arweiniodd yr argyfwng costau byw at ddefnyddwyr yn gwario llai, gyda defnyddwyr yn troi at doriadau rhatach o ran eu dewisiadau protein. Profodd cig oen, fel cynnyrch premiwm, godiadau prisiau sylweddol ar lefel manwerthu, a arweiniodd at golli rhai prynwyr yn y categori yn ystod y flwyddyn.

Roedd hyn yn golygu, yn 2022, bod cyfaint y cig oen a brynwyd ar lefel manwerthu ym Mhrydain Fawr wedi gostwng dros 20% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, i oddeutu 49,200 tunnell, a oedd yn is na'r lefelau cyn y pandemig. Fodd bynnag, cododd pris cyfartalog cig oen ar lefel manwerthu o £10.48 y kg yn 2021 i £11.66 y kg yn 2022. Gostyngodd treiddiad tua 13% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, wrth i ddefnyddwyr newid i broteinau rhatach eraill.

Mewn cymhariaeth, pris cyfartalog cig eidion ar lefel manwerthu ym Mhrydain Fawr yn ystod 2022 oedd £8.61 y kg – cynnydd o'r £7.99 y kg ar gyfer 2021. Gostyngodd cyfanswm y cyfaint a werthwyd 12% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, i 260,750 tunnell, tra bod llawer o ddefnyddwyr wedi newid i brynu toriadau mân a stiwio oherwydd eu pwynt prisiau a'u anwadalrwydd.

Aeth gwerth y cig coch a allforiwyd o Gymru tu hwnt i £250 miliwn yn ystod 2022 – cynnydd o 23% ar y flwyddyn flaenorol. Cododd cig defaid a allforiwyd o Gymru 14% o gymharu â lefelau 2021 o ran gwerth, tra bod cyfanswm gwerth allforion cig eidion yn £84 miliwn (cynnydd o 45% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol). Cododd gwerth allforion o ganlyniad i gynnydd mewn argaeledd cynnyrch a phrisiau porth fferm cryfach Prydain Fawr. Mae allforion i Ewrop yn parhau i fod yn gadarn flwyddyn ar ôl blwyddyn, tra bod gwerthiannau i farchnadoedd newydd sy'n dod i'r amlwg yn gryf wrth i'r galw barhau i adfer ar ôl Covid.

Cyflwynwyd ymgyrchoedd HCC mewn marchnadoedd allforio allweddol trwy gyfuniad o ddigwyddiadau masnach, teithiau i mewn ac allan, cefnogaeth cyfrifon allweddol a chysylltiadau cyhoeddus masnach a chyfathrebu digidol mewn marchnadoedd â blaenoriaeth. Yn y farchnad fyd-eang, mynychodd tîm allforio HCC ddigwyddiadau allweddol yn Sial, Gulfood, Sirha ac yn ‘uwchgynhadledd’ diwydiant cig America – *the Annual Meat Conference* (AMC) – a gynhaliwyd eleni yn Dallas, Texas.

Parhaodd y gwaith gyda Phartneriaeth Ardystio Allforio’r DU er mwyn codi cyfyngiadau ar fynediad i'r farchnad i nifer o wledydd.

Parhaodd adnoddau i gael eu blaenoriaethu i greu cyfathrebiadau clir â'r diwydiant a rhanddeiliaid er mwyn rhoi gwybod i bawb am weithgareddau HCC a gwybodaeth am y farchnad, a pharhaodd

HCC i sicrhau effeithiolrwydd gorfanwl archwiliadau i ategu uniondeb brandiau Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI.

Yn ystod y flwyddyn, gwelwyd ffocws HCC ar gynaladwyedd yn cael ei ailosod yn gadarnhaol. Datganodd y sefydliad nad oedd hi bellach yn *fusnes fel arfer* ac aeth ati i sefydlu diwylliant a oedd yn integreiddio ac yn ymgorffori egwyddorion cynaliadwyedd trwy gydol ei holl weithgarwch.

Lleolodd HCC ei hun fel arweinydd meddwl o ran cynhyrchu bwyd a rheoli tir yn gynaliadwy, a defnyddiodd ei safle unigryw yn y gadwyn gyflenwi i gyflawni'r hyn sydd ei angen ar y diwydiant, yr amgylchedd a'i ddefnyddwyr.

Parhaodd HCC i ddatblygu ei safbwynt seiliedig ar ddata a thystiolaeth ar gynaliadwyedd i hyrwyddo ac arwain y diwydiant trwy gyd-destun heriol ac esblygol, gan gadw i fyny â dylanwadau rhanbarthol, cenedlaethol a byd-eang, gan gynnwys Cynhadledd Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig (COP27) a Chynhadledd Bioamrywiaeth y Cenhedloedd Unedig (CoP15).

Yn ystod 2022-23, adeiladodd HCC ar y sylfeini cryf a osodwyd mewn blynyddoedd blaenorol gan ei fap cynaliadwyedd uchel ei barch, *Y Ffordd Gymreig*, i ganolbwyntio ar gysyniad ac ymarferoldeb ôl troed amgylcheddol cyflawn. Mae hyn yn ceisio adeiladu, mewn ffordd gyfannol, ar waith allyriadau carbon ac mae ei hanfodion ysgubol eang yn cynnwys bioamrywiaeth, iechyd pridd, ansawdd dŵr ac ansawdd aer. Mae cynlluniau uchelgeisiol hefyd wedi'u rhoi ar waith ar gyfer y blynyddoedd i ddod i sefydlu gwaelodlinau amgylcheddol a sicrhau y gall brandiau PGI Cymru gael eu hategu gan eu cymwysterau amgylcheddol, yn ogystal â'u gallu i olrhain.

Trwy gydol 2022-23, dangosodd HCC arweinyddiaeth yn y diwydiant ar gynaliadwyedd trwy ymgysylltiad brwdfrydig â'r holl randdeiliaid a llunwyr polisi allweddol a gynigiodd arweiniad trwy daflunio a hyrwyddo'r egwyddorion sy'n rhan annatod o system cynhyrchu bwyd cynaliadwy diwydiant cig coch Cymru ac sy'n sail iddi. Yn ogystal, darparodd ymdrechion ailosod cynaliadwyedd HCC waith cydweithredol ar y mater gydag AHDB a QMS ar ffrydiau gwaith cyn-gystadleuol.

Bu HCC yn llywio'r gwaith o graffu ar y Bil Amaethyddiaeth (Cymru) 2022, gan gyflwyno tystiolaeth yn ystod cam y pwyllgor, yn ogystal â chydweithio â sefydliadau ffermio a sefydliadau amgylcheddol anllywodraethol eraill i ddrafftio ymateb ar y cyd. Cyflwynwyd cyfraniadau ymgynghori hefyd ar faterion diwydiant, gan gynnwys y Bil Bwyd, Pontio Teg Cymru a theledu cylch cyfyng gorfodol mewn lladd-dai. Trwy’r cyfan, cyfrannodd HCC at ddatblygiad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Cyflwynwyd negeseuon cynaliadwyedd craidd yng nghynhadledd flynyddol HCC, cyfarfodydd undebau ffermio, Cynhadledd Gwir Fwyd a Ffermio Cymru, a Chynhadledd Sefydliad Maeth Prydain ar gyfer athrawon, ochr yn ochr â phodlediadau, gweminarau ac erthyglau ysgrifenedig.

Defnyddiwyd aelodaeth o Fwrdd Crwn Byd-eang Cig Eidion Cynaliadwy a'r Gynghrair Cig Fyd-eang i sicrhau bod HCC yn cyfrannu at ddeialog fyd-eang ar gyfer cynhyrchu cig coch cynaliadwy a chasglu data amgylcheddol.

Cyfrannodd HCC gyngor arbenigol ysgrifenedig a llafar i Lywodraeth Cymru a San Steffan, gan ddarparu tystiolaeth ar gyfer ymgynghoriadau, cwblhau galwadau am dystiolaeth a chyfrannu at

ymholiadau. Parhaodd HCC i ddarparu tystiolaeth mewn perthynas â chysylltiadau masnachu yn y dyfodol, gan gynnwys Cytundeb Masnach Rydd Seland Newydd y DU ac i fwydo i mewn i ddatblygiad Cynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.

Am bron i ugain mlynedd, mae HCC wedi bod yn warcheidwad twf a datblygiad cynaliadwy'r diwydiant ac wedi hyrwyddo gwelliannau effeithlonrwydd ffermydd. Yn ystod y deuddeg mis diwethaf, mae maes gwaith sylweddol i helpu'r diwydiant i baratoi ar gyfer heriau'r dyfodol wedi canolbwyntio ar Raglen Datblygu Cig Coch yr UE a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac, er ei bod bron â dod i ben, parhaodd i wneud cynnydd diolch i lu o weithgareddau a nifer o allbynnau a amlygodd gyfeiriadau datblygu'r diwydiant er mwyn sicrhau ffyniant yn y dyfodol.

Mae’r Rhaglen hon yn cynnwys tri phrosiect strategol sydd â’r nod o wella effeithlonrwydd a chynaliadwyedd yn y diwydiant, yn ogystal â gwella canfyddiadau’r cyhoedd o Gig Oen a Chig Eidion Cymru. Sef:

- Stoc+, prosiect i hyrwyddo cynllunio iechyd preiddiau a buchesi rhagweithiol;
- Cynllun Hyrddod Mynydd, i ddefnyddio technoleg i annog cofnodi perfformiad yn y sector defaid mynydd; a
- Phrosiect Ansawdd Cig Oen Cymru, sy'n asesu arferion ar bob cam o'r gadwyn gyflenwi i ddeall pa ffactorau all effeithio ar ansawdd bwyta.

Bydd y rhaglen yn dod i ben ym mis Mehefin 2023.

Mae prosiect Stoc+ wedi cael manteision diriaethol i gynhyrchiant ar ffermydd, ac felly proffidioldeb cynhyrchwyr. Mae gwella iechyd anifeiliaid ar y fferm yn sbardun allweddol i ffermydd ddod yn fwy cynaliadwy yn amgylcheddol a lleihau allyriadau. Mae milfeddygon, sy'n rhan allweddol o broffil y prosiect, wedi cadarnhau eu bod wedi canfod gwerth mawr wrth weithio'n agos gyda ffermwyr a'i fod wedi arwain at gynnydd yn hyder a gwybodaeth milfeddygon ifanc.

Adlewyrchir enillion blynyddol penodol yn natblygiad prosiectau peilot ar flaenoriaethau iechyd anifeiliaid allweddol a nodwyd yn Stoc+ ar gloffni defaid a ffrwythlondeb buchesi cig eidion.

Mae gan y Cynllun Hyrddod Mynydd dros 50 o ffermwyr sy'n cyfrannu sydd wedi cyflwyno bugeilio DNA yn eu heidiau ucheldirol a bryniau ar gyfer ffermio sy'n cael ei yrru gan ddata. Mae ffermwyr y Cynllun Hyrddod Mynydd yn defnyddio dadansoddiad genetig i lywio eu penderfyniadau praidd, gyda llawer eisoes yn gweld gwell perfformiad o ganlyniad i fod yn rhan o'r Cynllun. Dros y flwyddyn, mae HCC wedi gweithio gyda thîm ffermwyr y prosiect i wneud y mwyaf o'r nifer sy'n parhau i gofnodi ar ôl i'r Cynllun ddod i ben, sef cam gweithredu sy'n helpu i sicrhau dyfodol disglair a llewyrchus i ffermio mynydd cynaliadwy.

Daeth Paneli Blasu Defnyddwyr ar gyfer prosiect Ansawdd Cig Oen Cymru i ben yn gynnar yn 2023. Mae bron i 2,000 o ddefnyddwyr ledled y DU wedi bwyta 14,000 o samplau o Gig Oen Cymru ar draws y prosiect, gan roi glasbrint credadwy a chadarn i'r diwydiant o'r hyn mae defnyddwyr yn ei ffafrio. Mae'r prosiect hefyd wedi edrych ar fanteision maethol cig oen a bydd hwn yn adnodd gwerthfawr i'r sector i dynnu sylw at bwysigrwydd cig oen, a chig coch ehangach, mewn diet amrywiol o ran iechyd.

Mae lledaenu canlyniadau'r Rhaglen wedi bod yn elfen allweddol o gyflawni yn ystod y cyfnod. Mae hyn wedi cynnwys cyflwyniadau mewn digwyddiadau a chyfarfodydd amrywiol, ynghyd â chynhyrchu cyhoeddiadau, astudiaethau achos, hysbysebion a chylchlythyrau misol i dynnu sylw at ganlyniadau'r Rhaglen a chynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y gwaith.

Dychwelodd digwyddiadau Dewis Da Byw a gynhaliwyd mewn lladd-dai yn ystod y flwyddyn am y tro cyntaf ers Covid. Maent yn helpu ffermwyr i ddeall sut i wneud y mwyaf o'u cynhyrchiad i fodloni manylebau'r farchnad a hefyd i gynhyrchu am y gost orau posibl. Maent yn allbwn gwerthfawr i ledaenu gyrwyr a negeseuon allweddol y farchnad ac maent hefyd yn rhoi cyfle i dynnu sylw at bwysigrwydd cynyddu oes silff Cig Oen Cymru. Mae negeseuon parhaus wedi arwain at gynnydd pellach, gyda'r oes silff gyfartalog yn cynyddu eto yn ystod y flwyddyn.

Mae portffolio Ymchwil a Datblygu (R&D) HCC yn parhau'n ganolog i ymdrechion effeithlonrwydd diwydiant y sefydliad. Mae darparu a hwyluso'r dirwedd ar gyfer arloesiadau, cyfleoedd a thechnegau newydd yn rhan hanfodol o genhadaeth HCC. Yn ystod y flwyddyn, bu gwaith ymchwil gyda sefydliadau academaidd fel Prifysgolion Aberystwyth a Bangor yn ymchwilio i gyfleoedd i wneud y mwyaf o effeithlonrwydd o reoli glaswelltiroedd a bridio. Mae'r berthynas sefydledig rhwng HCC, y diwydiant a'r Prifysgolion yng Nghymru wedi cael ei chryfhau ymhellach yn ystod y deuddeg mis hwn trwy recriwtio pedwar myfyriwr PhD sydd wedi archwilio pynciau allweddol i gefnogi'r diwydiant yn y dyfodol.

Parhaodd gweithgarwch ymchwil cydweithredol hirsefydlog yn ystod y flwyddyn hon. Roedd yn cynnwys gwaith fel cefnogi'r Rhestr Glaswellt a Meillion a Argymhellir a mentrau ar y cyd â byrddau ardoll eraill yn y DU, megis prosiectau GrasscheckGB a RamCompare.

Dyfarnwyd Ysgoloriaeth Da Byw HCC i Charlie Cooper-Harding yn 2022. Teithiodd Charlie i Dde America i ymchwilio i bwysigrwydd magu anifeiliaid eidion effeithlon, cynaliadwy a phroffidiol yn y diwydiant llaeth. Bydd canlyniadau'r astudiaeth hon yn cael eu cyhoeddi dros y flwyddyn nesaf.

**Bryan Regan**
**Swyddog Cyfrifyddu**

**08 Tachwedd 2023**

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Mae’r Cyfarwyddwyr yn cyflwyno ynghlwm eu hadroddiad blynyddol, ynghyd â datganiadau ariannol archwiliedig y cwmni, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

**1. Canlyniadau**

Y canlyniad ar gyfer y flwyddyn oedd gwarged o £150,087 (gwarged 2022: £76,084).

**2. Prif Weithgaredd ac Adroddiad Strategol**

Prif weithgaredd y cwmni yn ystod y flwyddyn oedd datblygu a hybu cig coch Cymru.
Mae HCC wedi gweithio i gyrraedd targedau’r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2020-23, ac amcanion *Vision 2025*. Mae’r rhain wedi’u nodi yn yr Adroddiad Blynyddol ar dudalennau 1 i 9.

Mae’r canlyniad ar gyfer y flwyddyn i’w weld yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr ar dudalen 26 ac mae sefyllfa’r cwmni ar ddiwedd y flwyddyn i’w weld yn y Fantolen ar dudalen 27-28.
Dyma’r dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer y cwmni:

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Incwm o’r ardoll | 4,585,229 | 4,286,603 |
| Incwm o grantiau | 2,808,119 | 2,122,651 |
| (Gwarged) Gweithredol | (118,867) | (62,269) |

Cynyddodd incwm yr ardoll oherwydd y niferoedd mwy sydd ar gael.
Cynyddodd incwm y grant wrth i grant Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru weld cynnydd mewn gweithgarwch yn dilyn oedi oherwydd Covid.
Roedd y gwarged yn fwy nag yn 2022 oherwydd mwy o gostau llywodraethu.

Cafodd gwerth marchnad adeilad y swyddfa ei brisio ar 31 Mawrth 2021
£600,000. Nid yw Bwrdd HCC yn bwriadu symud o’r adeilad yn y dyfodol agos. Yn unol â pholisi cyfrifyddu’r cwmni, caiff yr adeilad ei brisio eto ym mis Mawrth 2024.

**Polisi Amgylcheddol**

Mae HCC wedi ymrwymo i leihau effaith ei weithgareddau ar yr amgylchedd gan geisio gwella gweithrediadau busnes yn barhaus er mwyn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd lleol a byd-eang. Y strategaeth yw hyrwyddo cynaliadwyedd ac ymwybyddiaeth amgylcheddol ledled y sefydliad drwy:

- Ymgorffori mesurau effeithlonrwydd ynni ac adnoddau naturiol i gyfleusterau'r sefydliad
- Mabwysiadu rhaglen gaffael sy'n ystyried effaith amgylcheddol cynhyrchion a gwasanaethau
- Atal llygredd a lleihau'r defnydd o adnoddau trwy strategaethau rheoli gwastraff sy'n hyrwyddo ailddefnyddio, adfer ac ailgylchu gwastraff
- Hyrwyddo teithio busnes priodol a rhannu ceir lle bo'n briodol
- Sicrhau bod staff yn ymwybodol o effeithiau amgylcheddol eu gweithgareddau gwaith ac yn darparu cefnogaeth i leihau'r effeithiau hynny

Yn ogystal, mae HCC yn cydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol perthnasol.

**Adroddiad y Cyfarwyddwyr (parhad)**

**Gweithwyr**

Mae HCC o'r farn y gall pob gweithiwr cyflogedig (neu ddarpar weithiwr cyflogedig) gyfrannu'n llawn ac yn effeithiol at nodau'r sefydliad ac mae wedi ymrwymo i ddefnyddio doniau ac adnoddau pawb i'r eithaf. O'r herwydd, ni fydd neb yn cael ei drin yn llai ffafriol ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas na phartneriaeth sifil, beichiogrwydd na mamolaeth, hil, crefydd na chred, rhyw na chyfeiriadedd rhywiol.

Ar ddiwedd y flwyddyn, dyma'r dadansoddiad o'r rhywiau ymysg y staff amser llawn:

| | Benyw | | Gwryw | |
|---|---|---|---|---|
| | 2023 | 2022 | 2023 | 2022 |
| Staff | 26 | 26 | 8 | 8 |

Dyma'r cydbwysedd rhwng y rhywiau ar Fwrdd y Cyfarwyddwyr, sydd oll yn anweithredol:

| | Benyw | | Gwryw | |
|---|---|---|---|---|
| | 2023 | 2022 | 2023 | 2022 |
| Cyfarwyddwyr | 4 | 4 | 6 | 6 |

Ni ddarperir dim gwybodaeth am faterion cymdeithasol na chymunedol.

**3. Prif Risgiau ac Ansicrwydd**

Amlinellir fframwaith risg y cwmni ar dudalen 15. Mae hwn yn sicrhau bod systemau mewnol HCC yn darganfod risgiau, yn eu monitro ac yn ymateb iddynt. Mae saith risg strategol critigol o'r gofrestr risg wedi'u rhestru ar dudalen 15. Mae'r prif risgiau ariannol wedi'u cofnodi yma.

Y prif risg i'r busnes yw llif arian mewn perthynas â gwariant grant. Mae HCC yn dibynnu ar setlo hawliadau grant yn brydlon. Pan fo oedi wrth dalu hawliadau, mae'n rhaid i HCC geisio trefniadau amgen er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau.

Mewn blynyddoedd blaenorol, prif risg HCC oedd lefel incwm yr ardoll. O 1 Ebrill 2021, dychwelwyd cyfanswm ardoll Prydain Fawr yn ôl poblogaeth fridio'r gwledydd priodol. Mae incwm ardoll HCC wedi cynyddu o'r dyddiad hwnnw ac mae'r risg ariannol o incwm ardoll a gollwyd wedi lleihau. Fodd bynnag, mae HCC yn dal i ddibynnu ar incwm gan 3 phrosesydd mawr a byddai cau unrhyw un o'r rhain yn effeithio ar incwm HCC.

Fel y nodwyd yn yr adroddiad blynyddol, mae pwysau chwyddiant hefyd yn risg i HCC. Mae hyn wedi'i liniaru gan y cytundeb i gynnydd blynyddol mewn cyfraddau ardoll o 1 Ebrill 2023.

Roedd pandemig COVID yn her i bob agwedd ar waith HCC, ac mae'r rhain yn cael sylw manylach yn yr adroddiad blynyddol ar dudalennau 1 i 9. Mae'r risg parhaus i'r cwmni wedi'i nodi a'i chofnodi yn y gofrestr risg ac mae'n cael ei fonitro'n rheolaidd.

**4. Datblygiadau'r Dyfodol**

Bydd y cwmni'n parhau i ddatblygu a hyrwyddo cig coch Cymru drwy incwm o'r ardoll ac unrhyw incwm sydd ar gael o grantiau.

**Adroddiad y Cyfarwyddwyr (parhad)**

**5. Cyfarwyddwyr a'u Buddiannau**

Dyma Gyfarwyddwyr y cwmni drwy gydol y cyfnod a hyd at ddyddiad llofnodi'r datganiadau ariannol:

**Cadeirydd**

| | |
|---|---|
| C M Smith | Ymgynghorydd ar y Sector Cig Coch; |

**Cyfarwyddwyr**

| | |
|---|---|
| M J Chapman (ymddiswyddodd 31 Mawrth 2023) | Cyfarwyddwr Fortress Womens Counselling And Coaching Limited; |
| D D H Davies (ymddiswyddodd 31 Mawrth 2023) | Ffarmwr; |
| G R Davies | Rheolwr Cyffredinol Ystad Rhug; Cyfarwyddwr Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cyf, Cymdeithas Defaid Lleyn Cyf, Partner Vale Vineyard – Gwinllan Y Dyffryn |
| G W Davies | Prif Weithredwr, Wynnstay Group PLC; Cyfarwyddwr Agricultural Industries Confederation Limited; Banbury Farm and General Supplies Limited, Bibby Agriculture Limited, Glasson Grain Limited, Glasson Group (Lancaster) Limited, Grainlink Limited, Humphrey Feeds Limited, Humphrey Pullets Limited, Humphrey Poultry (Holdings) Limited, Shropshire Grain Limited, Stanton Farm Supplies Limited, Tamar Milling Limited; Welsh Food Producers Limited, Woodheads Seeds Limited, Wrekin Grain Limited, Wynnstay Group PLC, Wynnstay (Agriculture Supplies) Limited, Wyro Developments Limited, Youngs Animal Feeds Limited |
| J T Davies | Ffermwr; Cyfarwyddwr Cwmbetws Cyf, Cymdeithas y Sioe Amaethyddol Frenhinol Cyfyngedig |
| H Evans (penodwyd 1 Ebrill 2023) | Ffermwr; |
| A J P Evershed | Ffermwr; Partner Evershed & Co |
| M W Humphreys (penodwyd 1 Ebrill 2023) | Ymchwilydd wedi Ymddeol |
| R L J Madeley Davies (ymddiswyddwyd 8 Awst 2022) | |
| D P Morgan | Cyfarwyddwr Caffael, Keypak; Ffarmwr; Cyfarwyddwr Ffrydlan Cyf |
| R E Roberts | Ffermwr; Cyfarwyddwr Heidro Harnog Cyf, Clwb Rygbi Dolgellau Cyf; Llywydd Farmers Marts (R G Jones) Limited; Aelod o Fwrdd Ardaloedd Llai Ffafriol NFU Cymru; |
| C E Sanger-Davies (penodwyd 1 Ebrill 2023) | Ymgynghorydd Marchnata; Cyfarwyddwr The Liverpool And Merseyside Theatres Trust Limited |

**Adroddiad y Cyfarwyddwyr (parhad)**

**5. Cyfarwyddwyr a'u Buddiannau**

| | |
|---|---|
| V Spencer-Francis (penodwyd 1 Ebrill 2023) | Sefydlydd a Rheolwr Gyfarwyddwr; Cyfarwyddwr Cowshed Communication Limited |
| C Williams (Ymddiswyddwyd 31 Marth 2023) | Ffarmwr; Rheolwr Ardal Warrendale Wagyu Limited |

**6. Cyfalaf Cyfranddaliadau**

Mae'r cwmni'n gwmni cyfyngedig drwy warant ac nid oes ganddo unrhyw gyfalaf cyfranddaliadau. Cyfyngir atebolrwydd yr aelod i £100.

**7. Yr Archwilwyr**

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd y cwmni yn unol â pharagraff 18(1) o atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**8. Datganiad Llywodraethiant**

**Fframwaith Llywodraethiant**

Y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am drefn lywodraethu gorfforaethol y cwmni ac maent wedi mabwysiadu'r arferion a bennir yng Nghod Llywodraethu Corfforaethol y DU, lle bo hyn yn berthnasol ac yn ymarferol.

Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb fel Swyddog Cyfrifyddu am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n helpu i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion HCC ac i ddiogelu'r arian cyhoeddus a'r asedau sefydliadol yn unol â'r cyfrifoldebau a nodir yn "Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru".

Cyllidir HCC gan incwm grant ac ardoll. Mae gan Weinidogion Cymru y grym i bennu ardoll dan Fesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010. Caiff y swyddogaethau dan y Mesur eu dirprwyo i HCC drwy gytundeb dirprwyo.

*Bwrdd y Cyfarwyddwyr*

Mae gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr nifer o swyddogaethau pwysig i reoli risg, gan gynnwys gosod y cywair a dylanwadu ar ddiwylliant rheoli risg oddi mewn i HCC a phennu faint o risg sy'n dderbyniol mewn meysydd gweithgaredd penodol. Mae'n gwneud hyn drwy gyfrwng ei bolisi a'i ddull gweithredu cyffredinol.

Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o arferion Llwgrwobrwyo a Llygru ac mae wedi mabwysiadu polisi i'w hatal.

*Pwyllgor Archwilio a Risg HCC*

Caiff cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Risg ei ddiffinio i gynnwys ystyried

gweithgareddau arfaethedig a chanlyniadau archwilio mewnol ac allanol. Dyma gyfansoddiad y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021:- G W Davies (Cadeirydd); G R Davies; A J Evershed

*Pwyllgor Taliadau HCC*

Pwyllgor Taliadau Bwrdd y Cyfarwyddwyr sy'n argymell tâl y Prif Weithredwr.

**Adolygu effeithiolrwydd**

Mae HCC wedi cynnal ei adolygiad ei hun o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol dan oruchwyliaeth y Pwyllgor Archwilio a Risg. Hysbyswyd Bwrdd y Cyfarwyddwyr ynghylch

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr (parhad)

### 8. Datganiad Llywodraethiant (parhad)

goblygiadau adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae systemau'r cwmni'n cael eu hadolygu'n gyson.

Wrth adolygu effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol HCC mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi cynnal y gweithgareddau allweddol hyn:

- *Adroddiadau Ariannol*
  Cafwyd dealltwriaeth o'r meysydd sy'n peri'r risgiau ariannol mwyaf ar hyn o bryd a sut mae'r rheolwyr yn ymdrin â nhw'n effeithiol.
- *Datganiadau Ariannol Blynyddol*
  Adolygwyd y datganiadau ariannol blynyddol gan benderfynu a oeddent yn gyflawn ac yn cyd-fynd â'r wybodaeth sy'n hysbys i aelodau'r pwyllgor; aseswyd a yw'r datganiadau ariannol yn adlewyrchu'r egwyddorion cyfrifyddu priodol; cyfarfuwyd â'r rheolwyr a'r archwilwyr allanol i adolygu'r datganiadau ariannol a chanlyniadau'r archwiliad.
- *Archwilio Mewnol*
  Adolygodd y Pwyllgor adroddiadau yr archwilwyr mewnol.
- *Archwilio Allanol*
  Adolygwyd cwmpas a dull archwilio arfaethedig yr archwilwyr a gwnaed yn siŵr nad oedd dim cyfyngiadau na therfynau wedi'u gosod ar y cwmpas heb gyfiawnhad.

**Pwrpas y system rheolaeth fewnol**

Bwriad y system rheolaeth fewnol yw rheoli risg i raddau rhesymol, yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion. Felly, ni all ond ddarparu sicrwydd rhesymol, ac nid sicrwydd llwyr, o effeithiolrwydd.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd i fod i adnabod a blaenoriaethu'r risgiau rhag cyflawni polisïau, nodau ac amcanion HCC, i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n digwydd ac effaith hynny, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod ar waith ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol, ac mae'n cydymffurfio â chanllawiau'r Trysorlys.

**Y gallu i drafod risg**

Rhoddir arweiniad i'r broses o reoli risg drwy Fwrdd y Cyfarwyddwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Rheolwyr gweithredol HCC yw tîm rheoli risg y cwmni, ac maent yn gyfrifol am ledaenu arferion da ar draws y sefydliad. Rhoddir hyfforddiant i'r tîm gweithredol er mwyn iddynt allu cyflawni'r gwaith hwn.

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr (parhad)

## 8. Datganiad Llywodraethiant (parhad)

### Y Fframwaith Risg

Mae polisi rheoli risg y cwmni'n elfen allweddol o'r system rheolaeth fewnol a'r fframwaith llywodraethu corfforaethol. Mae'n cynnwys agwedd HCC at reoli risg, ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau, y broses o reoli risg a'r trefniadau adolygu.

Pennir archwaeth HCC o ran risg drwy asesu effaith y risg ar nodau, amcanion ac adnoddau ariannol y cwmni.

Mae'r eitemau a ganlyn yn elfennau allweddol yn y system rheolaeth fewnol:

*Cytundeb fframwaith*

Mae cytundeb fframwaith wedi cael ei sefydlu rhwng HCC a Llywodraeth Cymru. Mae'r cytundeb hwn yn rhoi manylion y trefniadau llywodraethu rhwng Llywodraeth Cymru, fel yr unig aelod, a HCC.

*Cofrestr Risg*

Mae gan y cwmni Gofrestr Risg sy'n nodi risgiau ac yn eu sgorio am risg ac effaith. Caiff y gofrestr ei harchwilio'n rheolaidd gan y tîm gweithredol a'i hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Caiff risgiau eu sgorio yn ôl eu tebygolrwydd a'u heffaith. Nodwyd 13 risg strategol ac 17 risg gweithredol. Roedd 7 o'r risgiau strategol yn cael eu hystyried yn gritigol ar ôl i fesurau gweddilliol gael eu hasesu. Mae'r rhain yn ymwneud â'r canlynol:

- Dirwasgiad economaidd byd-eang o ganlyniad i argyfwng ariannol neu bandemig
- Gostyngiad yn nifer y da byw mewn ymateb i newid yn yr hinsawdd neu newid i bolisi'r Llywodraeth
- Tarfu ar fasnach oherwydd cau marchnadoedd allforio presennol neu amharu arnynt
- Effeithir yn andwyol ar ganfyddiadau'r cyhoedd o gig coch, a dylanwadir arno gan iechyd, yr amgylchedd a gofynion defnyddwyr
- Argaeledd staff medrus ar draws y gadwyn gyflenwi
- Cynnydd o ran cig wedi'i fewnforio o ansawdd is
- Cynnydd o ran mewnforion o safonau is yn lleihau galw masnachol am gig coch o Gymru

Mae gan HCC gysylltiadau parhaus â swyddogion ar lefel Cymru a'r DU i'w galluogi i fod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf.

Mae gan adran gyfathrebu HCC gynllun cyfathrebu i fynd i'r afael a'r rhain

Digwyddiadau annisgwyl yn tarfu ar fusnes.

Mae gan HCC gynllun amharu ar fusnes sefydledig a gafodd ei ddefnyddio yn ystod pandemig Covid-19. Cyfeirir at y cynllun o hyd wrth i staff barhau i weithio o dan drefniadau newydd.

*Cynllun Parhad Busnes*

Paratowyd Cynllun i ystyried sut y gallai HCC barhau â'i weithgareddau craidd pe bai trychineb yn digwydd.

*Cynllun Busnes*

O dan drefniadau llywodraethu newydd, mae HCC wedi paratoi Cynllun Busnes 2022-2026 ar gyfer tymor y Llywodraeth.

*Cynllun Gweithredol*

Cyflwynir Cynllun Gweithredol Blynyddol a Chyllideb i'r Bwrdd. Cymeradwywyd y Cynllun ar gyfer 2022/23 yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth 2022.

**Adroddiad y Cyfarwyddwyr (parhad)**

**8. Datganiad Llywodraethiant (parhad)**

*Adroddiadau Ariannol*
Bydd adroddiadau ariannol yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd yn rheolaidd.

*Adroddiadau Anariannol*
Mae HCC wedi datblygu System Monitro a Gwerthuso sy'n monitro canlyniadau ac allbynnau yn erbyn y targedau a bennwyd yn y Cynllun Gweithredol. Bydd pob adran a'r tîm gweithredol yn cynnal adolygiadau rheolaidd er mwyn gwneud yn siŵr bod y canlyniadau'n cael eu cyflawni, fod yr adnoddau'n cael eu defnyddio'n briodol a bod HCC yn rhoi gwerth am arian i'r rheini sy'n talu'r ardoll.

**9. Absenoldeb Oherwydd Salwch**
Yn ystod y flwyddyn, roedd cyfradd absenoldeb oherwydd salwch HCC yn 0.87% (2022: 1.1%).

**10. Datganiad Ynglŷn â Datgelu Gwybodaeth i Archwilwyr**

Mae'r Cyfarwyddwyr a oedd yn eu swyddi ar y dyddiad y cafodd y datganiadau ariannol hyn eu cymeradwyo wedi cadarnhau, hyd eithaf eu gwybodaeth, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni. Mae pob un o'r Cyfarwyddwyr wedi cadarnhau eu bod wedi cymryd yr holl gamau y dylent fod wedi eu cymryd fel Cyfarwyddwyr er mwyn gwneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac er mwyn gwneud yn siŵr ei bod wedi cael ei rhoi i'r Archwilydd.

**11. Datganiad am Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr**

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi Adroddiad y Cyfarwyddwyr, yr Adroddiad Taliadau a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith a'r rheoliadau perthnasol.

Mae'r gyfraith cwmnïau yn mynnu bod y Cyfarwyddwyr yn paratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith honno mae'r Cyfarwyddwyr wedi dewis paratoi datganiadau ariannol y cwmni'n unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol ("IFRS").
Mae'r datganiadau ariannol yn ofynnol o dan y gyfraith a'r IFRS er mwyn cyflwyno'n deg berfformiad a sefyllfa ariannol y cwmni. Mae'r cyfeiriadau yn Neddf Cwmnïau 2006 at ddatganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg yn gyfeiriadau at ddatganiadau ariannol o'r fath sy'n rhoi cyflwyniad teg.

O dan y gyfraith cwmnïau, rhaid i Gyfarwyddwyr beidio â chymeradwyo'r datganiadau

ariannol oni bai eu bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni ac o warged neu ddiffyg y cwmni ar gyfer y cyfnod hwnnw.

.

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr (parhad)

### 11. Datganiad am Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr (parhad)

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'n rhaid i'r Cyfarwyddwyr wneud y canlynol:

a. dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u rhoi ar waith mewn ffordd gyson;

b. gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon cyfrifyddu sy'n rhesymol ac yn ddarbodus;

c. nodi a ydynt wedi cael eu paratoi yn unol â'r IFRS, fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE;

d. Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai nad yw'n briodol tybio y bydd y cwmni'n parhau i fasnachu.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n ddigonol i ddangos ac egluro trafodiadau'r cwmni a datgelu sefyllfa ariannol y cwmni yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg, ac i'w galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol ac Adroddiad Taliadau'r Cyfarwyddwyr yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maen nhw hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni, ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac unrhyw anghysondeb arall.

Y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r wybodaeth ariannol a'r wybodaeth gorfforaethol sydd ar wefan HCC, ac am gywirdeb y wybodaeth honno. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n gysylltiedig â pharatoi a dosbarthu'r datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

**Drwy Orchymyn y Bwrdd.**

C Smith
Cadeirydd

08 Tachwedd 2023

## Adroddiad Taliadau

### Pwyllgor Taliadau

Pwyllgor Taliadau Bwrdd y Cyfarwyddwyr sy'n argymell tâl y Prif Weithredwr. Dyma gyfansoddiad y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023:- J T Davies (Cadeirydd), R L J Madeley-Davies (tan 8 Awst 2022), C Smith, A J Evershed (o 22 Tachwedd 2022 ymlaen).

### Datganiad ar y Polisi Taliadau

Mae holl Gyfarwyddwyr y cwmni yn anweithredol, a gan fod y cwmni'n gyfyngedig drwy

warant, nid oes ganddynt unrhyw gyfranddaliadau yn y cwmni.
Penodwyd C Smith yn Gadeirydd o 1 Ebrill 2021 ymlaen am gyfnod o 3 blynedd. Pennwyd ei thaliadau ar uchafswm o £350 y dydd tra bydd yn y swydd.
O blith y Cyfarwyddwyr a oedd yn eu swyddi ar ddyddiad yr adroddiad hwn, penodwyd 2 Gyfarwyddwr o 1 Ebrill 2021 am gyfnod o 3 blynedd, cafodd 4 Cyfarwyddwr eu hailbenodi gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig o 1 Ebrill 2023 am dair mlynedd arall a phenodwyd 4 Cyfarwyddwr o 1 Ebrill 2023 am gyfnod o 3 blynedd.
Pennwyd tâl y Cyfarwyddwyr anweithredol ar £300 y dydd, ynghyd â threuliau.

### Cofnodion Presenoldeb

Cyfarfu'r Bwrdd 6 gwaith rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023. Dyma nifer y cyfarfodydd Bwrdd yr oedd y Cyfarwyddwyr yn bresennol ynddynt:

| | 2022/2023 | 2021/2022 |
|---|---|---|
| M Chapman | 4 | 6 |
| D D H Davies | 2 | 2 |
| G R Davies | 6 | 6 |
| G W Davies | 5 | 4 |
| J T Davies | 6 | 6 |
| A J Evershed | 6 | 6 |
| R L J Madeley Davies | 1 | 6 |
| D P Morgan | 6 | 5 |
| R E Roberts | 6 | 6 |
| C M Smith | 6 | 6 |
| C Williams | 5 | 6 |

Yn ogystal â'r uchod, mae'r Cyfarwyddwyr yn mynychu cyfarfodydd o Is-bwyllgorau'r Bwrdd, yn ogystal â digwyddiadau'r diwydiant yn ystod y flwyddyn.

Ymddiswyddodd R L J Madeley Davies ar 8 Awst 2022. Ymddiswyddodd M Chapman, D D H Davies and C Williams ar 31 Mawrth 2023, ond roeddent ar gael i fynychu pob cyfarfod Bwrdd trwy gydol y flwyddyn.

Penodwyd H Evans, M Humphries, C Sanger-Davies a V Spencer-Francis ar 1 Ebrill 2023.

## Adroddiad Taliadau (parhad)

### Mae'r adran hon o'r Adroddiad Taliadau yn archwiliadwy

**Enillion y Cyfarwyddwyr**

Dyma Enillion y Cyfarwyddwr a fu'n gwasanaethu drwy'r flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023:

| | 2023 | 2022 | 2023 | 2022 |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| | Taliadau | | Treuliau | |
| Cadeirydd | | | | |
| C Smith | 20,125 | 20,825 | 2,491 | 794 |
| Cyfarwyddwyr Eraill | | | | |
| M Chapman | 3,150 | 3,450 | 382 | 101 |
| D D H Davies | 1,200 | 1,050 | - | - |
| G R Davies | 4,050 | 3,900 | 624 | 88 |
| G W Davies | 3,000 | 2,700 | 264 | - |
| J T Davies | 5,250 | 6,000 | 463 | 38 |
| A J Evershed | 4,350 | 4,200 | 210 | 83 |
| R L J Madeley Davies | 1,050 | 5,550 | 117 | 144 |
| D P Morgan | 4,050 | 3,450 | 249 | 85 |
| R E Roberts | 3,900 | 4,200 | 398 | 138 |
| C Williams | 3,750 | 4,350 | 192 | 68 |

Telir i aelodau'r Bwrdd am fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd, yn is-bwyllgorau'r Bwrdd ac yn nigwyddiadau'r diwydiant.

Ni chafodd yr un o'r Cyfarwyddwyr unrhyw fuddion mewn nwyddau ac nid oeddent yn gymwys i fod yn aelodau o gynllun pensiwn y cwmni. Aethant i dreuliau yng nghyswllt eu dyletswyddau fel Cyfarwyddwyr ac ad-dalwyd unrhyw filltiroedd a deithiasant ar fusnes y cwmni ar gyfraddau cymeradwy Cyllid a Thollau EM.

Yn ychwanegol at y Cyfarwyddwyr, dyma enillion y Prif Weithredwr, T G Howells:

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| Tâl | £125,001 - £130,000 | £110,001 - £115,000 |
| Buddion mewn nwyddau neu wasanaethau | £3,660 | £4,961 |
| Cyfraniadau pensiwn | - | £27,247 |
| Cyfraniadau pensiwn - blynyddoedd ychwanegol | - | £60,000 |

Roedd y Prif Weithredwr yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Cig a Da Byw a ddaeth i ben fel croniad yn y dyfodol ar 31 Mawrth 2022. Gwnaed cyfraniadau am flynyddoedd ychwanegol ar gyfer 3 aelod y cynllun yn lle cau'r cynllun yn gynnar. Cyfanswm y cyfraniad i'r Prif Weithredwr oedd £60,000. Mae'r gydnabyddiaeth a nodir uchod ar gyfer 2023 yn cynnwys taliadau yn lle cyfraniadau pensiwn.

## Adroddiad Taliadau (parhad)

**Mae'r adran hon o'r Adroddiad Taliadau yn archwiliadwy**

**Datgeliadau Cyflog Teg**

| | 2023 | | 2022 | |
|---|---|---|---|---|
| | Cymhareb â'r gweithiwr sy'n cael y cyflog | Cydnabyddiaeth | Cymhareb â'r gweithiwr sy'n cael y cyflog | Cydnabyddiaeth |
| Cymhareb cyflog 25 canradd | 3.82 | £31,002 | 4.18 | £27,349 |
| Cymhareb cyflog 50 canradd | 2.97 | £39,798 | 2.97 | £38,452 |
| Cymhareb cyflog 75 canradd | 2.59 | £45,615 | 2.81 | £40,627 |
| Ystod taliadau staff | | £20,597-£80,529 | | £19,710 - £76,063 |

Cynyddodd tâl y gweithiwr sy'n cael y cyflog uchaf 3.5%, fel y pennwyd gan y Pwyllgor Tâl.

Gostyngodd y ffigwr cyflog canraddol o 25% oherwydd cynnydd canrannol uwch yng nghyflogau staff ar y lefel hon.

Gostyngodd y ffigwr cyflog canraddol o 75% oherwydd cyflogau uwch i staff yn y ganradd uchaf.

Roedd y newid canrannol ar gyfartaledd yng nghyflogau staff yn dod i 3.5%.

C Smith
Cadeirydd

B Regan
Swyddog Cyfrifyddu

08 Tachwedd 2023

## Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau Hybu Cig Cymru – Meat Promotion Wales

### Barn am y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Hybu Cig Cymru-Meat Promotion Cymru ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023, sy’n cynnwys y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a’r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys polisïau cyfrifyddu o bwys. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi’r datganiadau ariannol yw’r gyfraith berthnasol a’r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU.

Yn fy marn i, mae’r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr y cwmni ar 31 Mawrth 2023 ac o’i warged ar gyfer y flwyddyn yn diweddu bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol, yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol mabwysiedig y DU; ac
- wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

### Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae’r gwariant a’r incwm yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae’r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â’r awdurdodau sy’n eu llywodraethu.

### Sail y farn

Roeddwn wedi cynnal fy archwiliad yn unol â’r gyfraith berthnasol, y Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)), a Nodyn Ymarfer 10 ‘Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig’. Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny wedi eu disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau’r archwilydd o ran archwilio’r datganiadau ariannol yn fy adroddiad.

Mae fy staff a minnau’n annibynnol o’r cwmni, yn unol â’r gofynion moesegol sy’n berthnasol i’m harchwiliad o ddatganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â’r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth rwyf wedi’i chasglu o’r archwiliad yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail ar gyfer fy marn.

### Casgliadau ynglŷn â busnes hyfyw

Wrth archwilio’r datganiadau ariannol, rydw i wedi dod i’r casgliad bod defnydd yr ymddiriedolwyr o sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi’r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi gweld dim ansicrwydd o bwys yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, ar eu pen eu hunain neu gyda’i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r cwmni i barhau i fod yn fusnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o’r dyddiad pan awdurdodir y datganiadau ariannol i’w cyhoeddi.

Mae fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau’r cyfarwyddwyr mewn perthynas â busnes hyfyw yn cael eu disgrifio yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

## Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau Hybu Cig Cymru – Meat Promotion Wales (parhad)

### Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, ac eithrio'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd arnynt. Yr cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall sydd yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ynghylch y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall, ac oni nodir yn wahanol yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arni. Fy nghyfrifoldeb yw darllen yr wybodaeth arall a, drwy wneud hynny, ystyried a oes anghysondeb o bwys rhwng yr wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth rydym ni wedi'i chael yn ystod yr archwiliad, neu sy'n ymddangos yn gamddatganiad o bwys fel arall. Os byddaf yn canfod anghysondebau o bwys neu gamddatganiadau o bwys amlwg o'r fath, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os, ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, rwy'n dod i'r casgliad bod camddatganiad o bwys o'r wybodaeth arall hon, mae'n rhaid i mi adrodd ar y ffaith honno.
Nid oes gennyf ddim i'w adrodd i'r perwyl hwn.

### Barn am faterion eraill a bennir gan Ddeddf Cwmnïau 2006

Yn fy marn i, mae'r rhan o Adroddiad Taliadau'r Cyfarwyddwyr sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â Deddf Cwmnïau 2006;
Yn fy marn i, ar sail y gwaith a gyflawnwyd drwy gydol fy archwiliad:
• mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Blynyddol ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol; ac • mae'r Adroddiad Blynyddol ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr wedi'u paratoi yn unol â gofynion cyfreithiol cymwys.

### Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

O ystyried y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r cwmni a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi gweld camddatganiadau o bwys yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr nac yn yr adroddiad blynyddol.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd ar y materion canlynol y mae Deddf Cwmnïau 2006 yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi adrodd wrthych arnynt, os, yn fy marn i:

- Nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.
- Ni gadwyd cyfrifon cyfrifyddu digonol, neu os na ddaeth datganiadau sy'n ddigonol ar gyfer ein harchwiliad i law oddi wrth ganghennau nad ymwelsom â nhw;
- Nid yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r datganiadau a'r cofnodion cyfrifyddu;
- Ni wneir datgeliadau penodol am daliadau cyfarwyddwyr fel sy'n ofynnol yn gyfreithiol;
- 
- Nid oedd gan y Cyfarwyddwyr hawl i fanteisio ar yr eithriad ar gyfer cwmnïau bach wrth baratoi adroddiad llawn y cyfarwyddwyr na manteisio ar yr eithriad ar gyfer cwmnïau bach rhag gorfod paratoi adroddiad strategol.

**Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau Hybu Cig Cymru – Meat Promotion Wales (parhad)**

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr dros y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr, mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol a bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg;
- sicrhau cysondeb o ran trafodion ariannol;
- rheolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y cyfarwyddwyr er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sydd ddim yn cynnwys camddatganiadau o bwys, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad.
- asesu gallu'r cwmni i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes hyfyw a defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes hyfyw oni bai fod y bwrdd a'r cyfarwyddwyr yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan y cwmni yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol

### Cyfrifoldebau'r Archwiliwr dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Cwmnïau 2006.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol nad oes yn y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd gamddatganiad sylweddol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyflwyno adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel dda o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys pan fydd yn bodoli. Mae camddatganiadau'n gallu codi o dwyll neu gamgymeriadau ac maen nhw'n cael eu hystyried yn rhai o bwys os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y byddai'n rhesymol disgwyl iddyn nhw ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn enghreifftiau o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n llunio gweithdrefnau yn unol â fy nghyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ddod o hyd i gamddatganiadau o bwys mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

• Holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol y cwmni a'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cyrchu ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Hybu Cig Cymru – Meat Promotion Wales sy'n ymwneud â:

- nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
- – canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu dwyll honedig; a'r
- – y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau neu reoliadau;

**Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau Hybu Cig Cymru – Meat Promotion Wales (parhad)**

• Ystyried, fel tîm archwilio, sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, a phostio cofnodion anarferol mewn dyddlyfrau;
• Datblygu dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Hybu Cig Cymru – Meat Promotion Wales yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Hybu Cig Cymru – Meat Promotion Wales yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith o bwys ar weithrediadau Hybu Cig Cymru – Meat Promotion Wales.
• Cael dealltwriaeth o berthnasoedd partïon cysylltiedig.
Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:
• adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiad â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
• holi'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Risg ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
• darllen cofnodion cyfarfodydd y rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r cyfarwyddwyr; ac
**Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau Hybu Cig Cymru – Meat Promotion Wales (parhad)**

**Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol (parhad)**
• wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy i reolwyr ddiystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso sail resymegol busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol y busnes; a
Yn ogystal, fe wnes i gyfleu'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a nodwyd, a'r risgiau posibl o ran twyll, i holl aelodau'r tîm archwilio, ac roeddwn yn ymwybodol o unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.
Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Hybu Cig Cymru -– Meat Promotion Wales, a natur, amseriad a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir yn effeithio ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. .
Ceir disgrifiad manylach o gyfrifoldebau'r archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

**Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd**
Rwy'n cael tystiolaeth sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.
Rwyf yn cyfathrebu â'r rheini sydd yn gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymysg materion eraill, cwmpas ac amseriad yr archwiliad a chanfyddiadau pwysig yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion o bwys mewn rheolaeth fewnol y byddaf yn dod o hyd iddynt yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau Hybu Cig Cymru – Meat Promotion Wales (parhad)

**Adroddiad**

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ynghylch y datganiadau ariannol hyn.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

**Datganiad Gwariant Cynhwysfawr**

| | Nodiadau | 2023 | 2022 |
|---|---|---|---|
| | | £ | £ |
| **Refeniw** | 5 | 7,411,419 | 6,444,423 |
| **Gwariant** | | | |
| Costau gweithredol | 7 | 7,530,286 | 6,506,692 |
| **Gwarged Gweithredol** | | (118,867) | (62,269) |
| Incwm Cyllid | | 1,573 | 52 |
| Costau Cyllid | 8 | (32,494) | (13,857) |
| **Gormodedd o Wariant Dros Incwm ar Weithgareddau Arferol Cyn Treth** | 7 | 149,788 | (76,074) |
| Treth | 11 | (299) | (10) |
| **Diffyg a chyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn y gellir ei briodoli i aelod y cwmni** | | **(**150,087) | (76,084) |
| | | ======= | ====== |

## Mantolen

| | Nodiadau | 2023 £ | 2022 £ |
|---|---|---|---|
| **Asedau Anghyfredol** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 12 | 621,990 | 658,373 |
| Asedau Hawl eu Defnyddio | 13 | 165,138 | 221,229 |
| | | 787,128 | 879,602 |
| **Asedau Cyfredol** | | | |
| Symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill | 14 | 2,022,003 | 2,639,051 |
| Arian a gwerthoedd cyfwerth ag arian | | 291,723 | 93,264 |
| | | 2,313,726 | 2,732,315 |
| **Cyfanswm yr Asedau** | | 3,100,854 | 3,611,917 |
| **Rhwymedigaethau Cyfredol** | | | |
| Gorddrafft Banc (ansicredig) | | - | 284,974 |
| Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill | 15 | 1,203,628 | 1,242,574 |
| Rhwymedigaethau Prydlesau Hawl eu Defnyddio | 16 | 29,489 | 40,503 |
| Rhwymedigaethau treth cyfredol | | 300 | 10 |
| | | 1,233,417 | 1,568,061 |
| **Rhwymedigaethau Anghyfredol** | | | |
| Rhwymedigaethau Prydlesau Hawl eu Defnyddio | 16 | 176,598 | 202,930 |
| **Cyfanswm Rhwymedigaethau** | | 1,410,015 | 1,770,991 |
| **Asedau Net** | | 1,690,839 | 1,840,926 |
| **Arian wrth Gefn** | | | |
| Incwm a Gedwir | 18 | 1,690,839 | 1,840,926 |

Ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023, roedd gan y cwmni hawl i gael ei eithrio o ofynion Rhan 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006 dan adran 482 o’r Ddeddf hon (cwmnïau nid-er-elw sy’n destun archwiliad sector cyhoeddus). Yn hytrach, bydd yn cael archwiliad sector cyhoeddus ac yn cael ei archwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Mantolen (Parhad)**

Cafodd y datganiadau ariannol, sy’n cynnwys y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, Mantolen, Datganiad Llif Arian a’r nodiadau cysylltiedig (1 i 24), eu cymeradwyo a’u hawdurdodi i’w cyhoeddi gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 8 Tachwedd 2023 a’u llofnodi ar ei ran gan:

C Smith Cadeirydd

B Regan Swyddog Cyfrifyddu

## Datganiad Llif Arian

| | 2023 £ | 2022 £ |
|---|---|---|
| **Llif Arian o Weithgareddau Gweithredol** | | |
| (Gwarged) Gweithredol | (118,867) | (62,269) |
| Dibrisiad a cholled ar waredu asedau | 57,866 | 45,631 |
| Dibrisiad ar asedau hawl eu defnyddio | 47,947 | 46,145 |
| Taliadau prydlesau gweithredol | 3,957 | 4,128 |
| Symudiadau mewn cyfalaf gweithio: | | |
| (Cynnydd)/Gostyngiad yn y symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill | 708,295 | (940,959) |
| Cynnydd/(Gostyngiad) yn y symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill | (130,193) | 495,785 |
| Arian a wariwyd ar weithrediadau | 569,005 | (411,539) |
| Trethi a dalwyd | (10) | (72) |
| Arian parod net a wariwyd ar weithgareddau gweithredol | 568,995 | (411,611) |
| **Llif Arian o Weithgareddau Buddsoddi** | | |
| Prynu offer a chyfarpar | (11,337) | (73,795) |
| Prynu asedau anniriaethol | (10,145) | - |
| Enillion o waredu asedau | - | 5,000 |
| Arian net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau buddsoddi | (21,482) | (68,795) |
| **Llif Arian o Weithgareddau Cyllido** | | |
| Llog a dderbyniwyd | 1,573 | 52 |
| Taliadau Lesau Asedau Hawl eu Defnyddio: cyfalaf | (29,202) | (36,875) |
| Taliadau Lesau Asedau Hawl eu Defnyddio: llog | (19,780) | (8,558) |
| Taliadau prydlesau gweithredol | (3,957) | (4,128) |
| Llog gorddrafft banc | (12,714) | (5,299) |
| Arian parod net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau cyllido | (64,080) | (54,808) |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a gwerthoedd cyfwerth ag arian** parod | 483,433 | (535,214) |
| Arian parod a gwerthoedd cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | (191,710) | 343,504 |
| Arian parod a gwerthoedd cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y flwyddyn | 291,723 | (191,710) |

**Datganiad Llif Arian (Parhad)**

| | | |
|---|---|---|
| Arian mewn cyfrifon banc | 291,723 | 93,264 |
| Gorddrafft banc | - | (284,974) |
| | 291,723 | (191,710) |

**Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol**

**1. Gwybodaeth Gyffredinol**

Mae Hybu Cig Cymru-Meat Promotion Wales (HCC) yn gwmni atebolrwydd cyfyngedig a

gorfforwyd ac a sefydlwyd yn y Deyrnas Unedig. Mae'r cwmni'n gyfyngedig drwy warant ac nid oes ganddo unrhyw gyfalaf cyfranddaliadau. Rhif cofrestru'r cwmni yw 4635113 a chyfeiriad ei swyddfa gofrestredig yw Ty Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth, SY23 3FF.
Yr unig aelod o'r cwmni gydol y flwyddyn oedd Gweinidogion Cymru.

**2. Datganiad Cydymffurfio**

Cafodd y datganiadau ariannol eu paratoi yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) ac yn unol â darpariaethau cymwys Deddf Cwmnïau 2006. Dilynwyd hefyd egwyddorion Llawlyfr Adrodd Ariannol 2022-23 Trysorlys EM.

**3. Sail Paratoi**

Cyflwynir y datganiadau ariannol mewn punnoedd sterling. Fe'u paratowyd ar sail cost hanesyddol ac eithrio'r eiddo rhydd-ddaliadol a gyflwynir ar sail prisiad.

**4. Polisïau Cyfrifyddu o Bwys**

**Datganiadau ariannol ar wahân**

Nid oes angen i'r cwmni baratoi cyfrifon grŵp gan fod y grŵp sy'n cynnwys y cwmni a'i is-gwmni yn syrthio o dan drothwy grwpiau bach Deddf Cwmnïau 2006. Yn ogystal â hyn, nid yw Llywodraeth Cymru yn gofyn i gyfrifon grŵp gael eu paratoi.

**Busnes Hyfyw**

Ar 31 Mawrth 2023, mae gan y cwmni asedau net o £1,690,839. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol gan fod y cwmni wedi paratoi cyllideb a rhagolwg llif arian ar gyfer y deuddeg mis ar ôl dyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn, sy'n dangos bod gan y cwmni ddigon o arian i barhau i fodloni ei rwymedigaethau. Ar sail hyn, mae'r Cyfarwyddwyr yn ystyried bod y cwmni yn fusnes hyfyw.

**Refeniw**

Mae Refeniw yn cynnwys incwm o'r ardoll, grantiau a gwasanaethau yr anfonebir amdanynt. Incwm o'r ardoll – codir ardoll statudol am yr holl anifeiliaid sy'n cael eu lladd yng Nghymru i'w bwyta gan bobl. Cydnabyddir yr incwm ar ddyddiad y lladd, hyd at wythnos lawn olaf mis Mawrth. Mae incwm ardoll hefyd yn cynnwys ardoll a ddychwelwyd oddi wrth gyrff ardoll Prydain Fawr eraill o dan Ddeddf Amaethyddiaeth 2020.

## Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)

### Refeniw (Parhad)

Hawlir grantiau pan fo'r gwariant wedi'i wneud ond cydnabyddir incwm drwy grantiau yn y datganiadau ariannol i gyfateb i'r costau pan fo'r gweithgaredd wedi digwydd. Nid yw incwm o grantiau yn dod o dan gwmpas TAW.

Incwm o grantiau – derbynnir grantiau gan Lywodraeth Cymru, trwy'r Gronfa Amaethyddol Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig, sef Cynllun Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020.

Gwasanaethau yr anfonebir amdanynt – cydnabyddir yr incwm pan fo'r gweithgaredd wedi digwydd. Mae'r cyfryw weithgaredd yn ymwneud â gwasanaethau a gyflawnir ar ran cyrff eraill. Nodir incwm yn glir o TAW.

### Gwariant

Mae'r gwariant yn cynnwys costau ar gyfer gwasanaethau a chostau cyflogaeth. Caiff costau eu cydnabod yn ystod y cyfnod y cynhaliwyd y gweithgaredd. Bydd unrhyw gostau nad ydynt wedi'u talu yn ystod y cyfnod priodol yn cael eu cronni a'u cydnabod yn y symiau taladwy drwy Fasnach a Thaliadau Eraill.

## 4. Polisïau Cyfrifyddu o Bwys

### Buddiannau Gweithwyr Tymor Byr

Caiff cyflogau a thaliadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth eu cydnabod yn y cyfnod y derbynnir y gwasanaeth gan weithwyr.

### Pensiynau

Mae'r cwmni'n gwneud cyfraniadau diffiniedig at gynlluniau pensiwn unigol ar gyfer ei holl weithwyr. Caiff cyfraniadau sy'n daladwy ar gyfer y flwyddyn eu rhoi ar y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Cafodd y cynlluniau pensiwn eu rhoi at ei gilydd o dan Gynllun Pensiwn Grŵp Hybu Cig Cymru. Mae'r cwmni'n dechrau cyfrannu cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ar ôl i'r gweithwyr ddechrau yn y swydd.

### Eiddo, offer a chyfarpar

Nodir yr eiddo rhydd-ddaliadol adeg ei brisio llai'r dibrisiad cronedig. Ni ddarperir dibrisiad yn y flwyddyn gaffael. Nid yw tir rhydd-ddaliad yn cael ei ddibrisio. Caiff yr eiddo rhydd-ddaliadol ei brisio bob tair blynedd, oni fod symudiad y farchnad leol, ym marn y Cyfarwyddwyr, yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei brisio'n amlach.

Nodir offer a chyfarpar am eu cost llai'r dibrisiad cronedig.

Dibrisir asedau eiddo rhydd-ddaliadol, offer a chyfarpar i'w gwerth gweddilliol yn ystod eu hoes economaidd ddefnyddiol ar y seiliau canlynol:

| | |
|---|---|
| Eiddo rhydd-ddaliadol | dros 30 mlynedd o 2009 |
| Cyfarpar cyfrifiadurol | balans gostyngol o 33% |
| Dodrefn Swyddfa | balans gostyngol o 25% |
| Cerbydau | balans gostyngol o 25% |

## Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)

### 4. Polisïau Cyfrifyddu o Bwys (parhad)

**Asedau Hawl eu Defnyddio**

Caiff asedau hawl i ddefnyddio eu cydnabod pan fydd y cwmni'n ymrwymo i gontractau lle mae gan y cwmni hawl i gael y budd economaidd o ddefnyddio a rheoli ased dynodedig.
Mae'r gwerth a gyfalafwyd yn seiliedig ar gost i ddechrau, sef swm rhwymedigaeth gychwynnol y brydles ynghyd ag unrhyw daliadau a wneir ymlaen llaw i'r prydleswr llai unrhyw gymhellion a dderbyniwyd ynghyd ag unrhyw gostau uniongyrchol cychwynnol.
Caiff yr asedau eu dibrisio dros oes y prydlesi ar sail llinell syth. Bydd Cerbydau Modur yn cael eu dibrisio ar 25% y flwyddyn, ac ar hyn o bryd mae oes y brydles ar gyfer asedau eiddo rhwng 5 ac 11 mlynedd.
Bydd y model costau'n parhau i fod yn berthnasol a chaiff gwerthoedd asedau eu diweddaru wrth i rwymedigaethau prydlesau newid.

Nid yw unrhyw brydlesi tymor byr, na'r rheini sydd â chyfnod les ar y dyddiad cychwyn o 12 mis neu lai, yn cael eu cyfalafu ac maent yn cael eu trin fel gwariant dros gyfnod y brydles.

Hefyd, nid yw lesoedd gwerth isel fel cyfrifiaduron a dodrefn swyddfa'n cael eu cyfalafu a'u trin fel gwariant dros gyfnod y brydles, ar yr amod nad yw'r rhain yn rhyngberthynol iawn i asedau eraill.
Cyfrifir taliadau am asedau nad ydynt yn bodloni diffiniad les fel nwyddau a gwasanaethau, a chânt eu priodoli i wariant wrth iddynt ddod yn ddyledus dros unrhyw gyfnod contract.

**Amhariad asedau anghyfredol**

Ar ddyddiad pob mantolen, bydd y Cwmni'n adolygu symiau cario ei eiddo, ei offer a'i gyfarpar a'i asedau hawl eu defnyddio er mwyn pennu a oes unrhyw arwydd bod yr asedau hynny wedi dioddef colled amhariad o safbwynt y cynllun gweithredol a'r cynllun busnes. Os oes arwydd o'r fath, caiff swm adferadwy'r ased ei amcangyfrif er mwyn canfod maint y golled oherwydd amhariad (os o gwbl).
Y swm adferadwy yw gwerth teg uchaf yr ased ar ôl tynnu'r costau i'w werthu a'r gwerth o'i ddefnyddio. Er mwyn asesu ei werth o'i ddefnyddio, caiff llif arian a ragwelir yn y dyfodol ei ostwng i'w werth presennol gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt cyn treth sy'n adlewyrchu asesiadau'r farchnad gyfredol o werth yr arian o ran amser a'r risgiau sy'n benodol i'r ased nad yw'r llif arian a amcangyfrifir i'r dyfodol wedi ei addasu ar gyfer yr ased hwnnw.
Cydnabyddir colled amhariad yn syth yn y datganiad o incwm cynhwysfawr, oni bai fod yr ased priodol yn cael ei gario ar werth wedi'i ailbrisio; os felly, bydd y golled amhariad yn cael ei thrin fel gostyngiad ailbrisio. Pan fo colled amhariad yn gwrthdroi yn ddiweddarach, bydd swm cario'r ased yn cael ei gynyddu i'r amcangyfrif diwygiedig o'i swm adferadwy, ond fel nad yw'r swm cario cynyddol yn fwy na'r swm cario a fyddai wedi'i bennu pe na byddai colled amhariad wedi'i chydnabod ar gyfer yr ased mewn blynyddoedd blaenorol. Caiff achos o wyrdroi colled amhariad ei gydnabod ar unwaith yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, oni bai fod yr ased priodol yn cael ei gario ar werth wedi'i ailbrisio; os felly, bydd y gwyrdroad yn cael ei drin fel cynnydd ailbrisio.

## Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)

### 4. Polisïau Cyfrifyddu o Bwys (parhad)

**Offerynnau Ariannol**
Bydd asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol yn cael eu cydnabod pan fydd y Cwmni wedi dod yn rhan o ddarpariaethau contract yr offeryn.

**Asedau ariannol**
Derbyniadau drwy fasnach, incwm ardoll sy'n ddyledus ac incwm cronedig:

Caiff derbyniadau drwy fasnach, incwm ardoll sy'n ddyledus ac incwm cronedig eu cydnabod i ddechrau yn ôl gwerth teg. Darperir ar gyfer amhariad pan geir tystiolaeth wrthrychol (gan gynnwys cwsmeriaid ag anawsterau ariannol neu sy'n hwyr yn talu) na fydd symiau'n cael eu hadfer yn unol â thelerau gwreiddiol y cytundeb. Sefydlir darpariaeth ar gyfer amhariad pan fo gwerth cario'r eitem dderbyniadwy'n fwy na gwerth presennol llif arian y dyfodol.

**Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod**
Mae arian a gwerthoedd cyfwerth ag arian yn cynnwys arian parod mewn llaw ac adneuon mewn sefydliadau ariannol sydd ar gael yn syth ar gais neu â rhybudd heb fod yn fwy na thri mis.

**Rhwymedigaethau ariannol**
Caiff rhwymedigaethau ariannol eu dosbarthu yn ôl sylwedd y trefniadau cytundebol yr ymrwymwyd iddynt.

**Symiau taladwy drwy fasnach**
Cydnabyddir symiau taladwy drwy fasnach yn ôl eu cost i ddechrau.

**Rhwymedigaethau Prydlesau Hawl eu Defnyddio**
Caiff rhwymedigaethau prydlesau eu cydnabod pan fydd y cwmni'n ymrwymo i gontractau lle mae gan y cwmni hawl i gael y budd economaidd o ddefnyddio a rheoli ased dynodedig.
I ddechrau, mae gwerth yr atebolrwydd yn cael ei gyfrifo fel gwerth presennol taliadau les, sy'n cael eu disgowntio gan gyfradd llog sylfaenol y Cwmni ar ddyddiad cychwyn y les neu'r dyddiad trosglwyddo o dan IFRS16.
Cyfradd llog sylfaenol y Cwmni ar 1 Ebrill 2019 oedd 2.54%, a dim ond pan fydd cyfnod y brydles yn cael ei ddiweddaru y bydd cyfraddau llog yn cael eu diweddaru.
Mae taliadau prydles yn cynnwys y taliadau sefydlog i'w gwneud o dan gontract y brydles, a dim ond pan fyddant yn ddyledus y rhoddir cyfrif am godiadau chwyddiant.
Mae'r rhwymedigaeth prydlesau'n cynyddu gyda thâl llog (sy'n cael ei godi ar wariant) ac mae'n cael ei leihau wrth i daliadau gael eu gwneud i gyflenwyr.

**Arian Tramor**
Bydd gweithgareddau masnachu arferol ag arian tramor, sef taliadau i gyflenwyr tramor, yn cael eu cofnodi fel sterling yn ôl y cyfraddau cyfnewid ar ddyddiad y trafodiad.

## Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)

### 4. Polisïau Cyfrifyddu o Bwys (parhad)

**Rhwymedigaethau Digwyddiadol**
Mae’r cwmni’n cydnabod rhwymedigaethau yn y Fantolen, lle mae’r meini prawf canlynol yn cael eu bodloni:
pan fydd gan y cwmni rwymedigaeth yn y dyfodol i dalu dyled; efallai y bydd y ddyled honno’n gofyn am all-lif o adnoddau pan fydd yr atebolrwydd yn crisialu; y ceir amcangyfrif dibynadwy o’r atebolrwydd. Os nad yw’r holl feini prawf hyn yn cael eu bodloni, bydd y rhwymedigaeth yn cael ei chofnodi yn y nodiadau fel rhwymedigaeth amodol.

**Amcangyfrifon a Dyfarniadau Cyfrifyddu**
Wrth ddefnyddio polisïau cyfrifyddu’r Cwmni, a ddisgrifir yn gynharach yn y nodyn hwn, mae’n ofynnol i’r Cyfarwyddwyr farnu a gwneud amcangyfrifon a thybiaethau ynglŷn â symiau cario asedau a rhwymedigaethau nad ydynt yn gwbl amlwg o ffynonellau eraill. Mae’r amcangyfrifon a’r tybiaethau cysylltiedig yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol. Gall y gwir ganlyniadau fod yn wahanol i’r amcangyfrifon hyn. Adolygir amcangyfrifon a rhagdybiaethau sylfaenol yn barhaus. Cydnabyddir cywiriadau i amcangyfrifon cyfrifyddu yn y cyfnod pan fo’r amcangyfrif yn cael ei gywiro os yw’r cywiro’n cael effaith ar y cyfnod hwnnw’n unig neu yng nghyfnod y cywiro a chyfnodau diweddarach os yw’r cywiro’n effeithio ar y cyfnod cyfredol a chyfnodau diweddarach.

Penderfyniadau pwysig wrth roi polisïau cyfrifyddu’r Cwmni ar waith:
Y canlynol yw’r penderfyniadau pwysig, ar wahân i’r rhai sy’n ymwneud ag amcangyfrifon (gweler isod), y mae’r Cyfarwyddwyr wedi’u gwneud wrth roi polisïau cyfrifyddu’r Cwmni ar waith ac y mae’n rhaid iddynt gael yr effaith fwyaf ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol.
Cydnabod refeniw:
Wrth ddod i farn, ystyriodd y cyfarwyddwyr y meini prawf manwl ar gyfer cydnabod y refeniw a nodir yn IFRS 15 Refeniw.
Darpariaeth ar gyfer dyledion amheus:
Mae cydnabod amhariad ar ased ariannol yn seiliedig ar ba mor debygol ydynt o adennill gwerth yr asedau ariannol. Felly, wrth gydnabod amhariad mae gofyn gallu cyfiawnhau’r gallu i adennill.
Amhariad ar eiddo, offer a chyfarpar:
Wrth benderfynu a oes amhariad ar eiddo, offer a chyfarpar, mae angen amcangyfrif gwerth-ar-ddefnydd yr unedau sy’n cynhyrchu arian. Mae’r cyfrifiad gwerth-ar-ddefnydd yn gofyn i’r endid amcangyfrif y llifau arian y mae disgwyl iddynt ddeillio o’r uned cynhyrchu arian yn y dyfodol ynghyd â chyfradd ddisgownt addas er mwyn cyfrifo’r gwerth cyfredol.
Hawl i Ddefnyddio Asedau a Rhwymedigaethau
Penderfynu ar y gyfradd ddisgownt sylfaenol ar adeg y cyfalafu.
Rhwymedigaethau pensiwn:
Mae’r Cyfarwyddwyr wedi cael ac wedi ystyried prisiad actiwaraidd ynglŷn â rhwymedigaeth bosibl o safbwynt un o gynlluniau pensiwn y Cwmni, fel y gwelir yn nodyn 18.

**Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)**

## 4. Polisïau Cyfrifyddu o Bwys (parhad)

**Ffynonellau allweddol o ansicrwydd o ran amcangyfrif**

Mae'r Cyfarwyddwyr yn credu nad oes dim ffynonellau allweddol o ansicrwydd o ran amcangyfrif yn y cyfrifon ar gyfer y cyfnod.

**Effaith safonau nad ydynt ar waith eto**

Mae'r Cyfarwyddwyr wedi ystyried effaith y safonau a'r dehongliadau a gyhoeddwyd ond nad ydynt ar waith eto ac na chawsant eu mabwysiadu'n gynnar gan y cwmni. Ni fydd mabwysiadu'r safonau hyn yn cael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol.

## 5. Refeniw

| | **2023** | **2022** |
|---|---|---|
| | **£** | **£** |
| Ardoll | 4,585,229 | 4,286,603 |
| Grantiau a dderbyniwyd: | | |
| : Llywodraeth Cymru – RMDP | 2,724,489 | 1,932,530 |
| : Llywodraeth Cymru – Allforio | 83,630 | 100,000 |
| : Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil (CPRC) Llywodraeth Cymru | - | 90,121 |
| Gwasanaethau | 18,071 | 35,169 |
| | 7,411,419 | 6,444,423 |
| | ======= | ======= |

O 1 Ebrill 2021, mae cyfanswm incwm ardoll Prydain Fawr wedi'i ddychwelyd i'r wlad enedigol. Yn gynwysedig yn yr ardoll mae swm o £1,504,479 (2022: £1,386,208) a dderbyniwyd o dan y trefniant hwn. Yn flaenorol, roedd cyrff ardoll Prydain Fawr wedi cytuno ar wariant ar y cyd, o dan gronfa wedi'i neilltuo, ar weithgareddau Prydain Fawr sydd o fudd i dalwyr ardoll Prydain Fawr. Roedd HCC yn gallu anfonebu'r gronfa £79,270 (2022: £26,500).

## 6. Segmentau Gweithredol

Mae'r Bwrdd o'r farn bod y cwmni'n cynnwys dau segment gweithredol, gyda'r ddau yn cyfrannu at ddatblygu a hybu cig coch Cymru. Pennwyd y segmentau yn ôl y ffynhonnell incwm a'r gwariant perthnasol.

Mae'r holl incwm a gynhyrchir gan y busnes yn dod o'r Deyrnas Unedig.

| | | Ardoll | Grantiau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2023 | Refeniw | 4,603,300 | 2,808,119 | 7,411,419 |
| | Gwariant | 4,727,050 | 2,803,236 | 7,530,286 |
| | (Gwarged) Gweithredol/Dros ben | (123,750) | 4,883 | (118,867) |
| | | ======== | ====== | ======= |

## Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)

### 6. Segmentau Gweithredol (parhad)

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2022 | Refeniw | 4,321,772 | 2,122,651 | 6,444,423 |
| | Gwariant | 4,387,075 | 2,119,617 | 6,506,692 |
| | (Gwarged) Gweithredol/Dros ben | (65,303) | 3,034 | (62,269) |

Mae’r sector ardoll hefyd yn cynnwys gwasanaethau eraill sy’n ychwanegu at wariant yr ardoll.

Mae'r wybodaeth ganlynol yn nodi'r risgiau i incwm HCC oherwydd dibyniaeth ar bartïon penodol, yn seiliedig ar eu prif ffynonellau incwm.

Fel rhan o’r incwm o’r ardoll, 3 chwmni sy’n rhedeg lladd-dai yng Nghymru sydd i gyfrif am 13%, 10% a 9% yn y drefn honno (2022: 14%, 11% a 9%) o gyfanswm yr incwm o £7,411,419 (2022: £6,444,423).

Fel rhan o’r grantiau, y grantiau uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru a hefyd dan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-20 sydd i gyfrif am 37.9% (2022: 33.9%) o gyfanswm yr incwm o £7,411,419 (2022:£6,444,423).

### 7. Gwariant Uwchlaw Incwm ar Weithgareddau Cyffredin Cyn Treth

Nodir y canlyniad ar ôl codi/(credydu) y canlynol:

| | 2023<br>£ | 2022<br>£ |
|---|---|---|
| Archwilwyr – archwiliad | 27,188 | 18,494 |
| Costau staff (nodyn 9) | 1,558,437 | 1,616,162 |
| Ffioedd y Cyfarwyddwyr (nodyn 10) | 59,263 | 61,213 |
| Dibrisiad | 57,866 | 44,394 |
| Dibrisiant: Asedau ROU | 47,947 | 46,145 |
| Colled/(Elw) ar gyfnewid arian tramor | 4,916 | (2,768) |
| Rhent prydlesau gweithredol – cyfarpar | 3,957 | 4,128 |
| Drwgddyledion (adferwyd) | (16,667) | (58,392) |

**Costau gweithredol**

| | | 2023<br>£ | 2022<br>£ |
|---|---|---|---|
| Allforio: | Sefydledig | 898,286 | 832,266 |
| | Yn Datblygu | 123,178 | 107,850 |
| | Marchnadoedd Newydd | 51,794 | 50,071 |
| | Grantiau | 83,630 | 100,000 |
| Cartref: | Adwerthu | 161,053 | 245,256 |
| | Defnyddwyr | 980,154 | 933,024 |
| | Gwasanaethau Bwyd | 88,064 | 95,660 |
| Datblygu Brandiau | | 233,197 | 204,323 |
| Grantiau Llywodraeth Cymru | | 2,719,606 | 2,019,617 |
| Gwybodaeth am y Farchnad | | 417,966 | 379,617 |
| Ymchwil a Datblygu | | 97,774 | 123,324 |

**Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)**

## 7. Gwariant Uwchlaw Incwm ar Weithgareddau Cyffredin Cyn Treth

| | | |
|---|---|---|
| Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi | 87,386 | 73,182 |
| Costau Corfforaethol | 1,588,198 | 1,342,386 |
| Cyfanswm | 7,530,286 | 6,506,692 |
| | ======= | ======= |

Caiff costau staff eu priodoli i'r gweithgaredd y maent yn berthnasol iddo.

## 8. Costau Cyllid

| | **2023** | **2022** |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Ffioedd llogau ar orddrafft banc | 12,714 | 5,299 |
| Ffioedd llogau ar Asedau Hawl eu Defnyddio | 19,780 | 8,558 |
| | 32,494 | 13,857 |
| | ===== | ===== |

## 9. Costau Staff

Roedd costau staff yn cynnwys:

| | **2023** | **2022** |
|---|---|---|
| | **£** | **£** |
| Cyflogau | 1,340,135 | 1,266,308 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 140,882 | 128,042 |
| Costau pensiwn eraill | 77,420 | 221,812 |
| | 1,558,437 | 1,616,162 |
| | ======= | ======= |

Dyma nifer gyfartalog y bobl gyfwerth ag amser llawn, ac eithrio Cyfarwyddwyr, a gyflogwyd
ar gontractau cyflogaeth y DU, yn ystod y flwyddyn:

| | **2023** | **2022** |
|---|---|---|
| Datblygu Marchnadoedd | 7 | 8 |
| Datblygu'r Diwydiant | 10 | 10 |
| Cyfathrebu | 3 | 3 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 13 | 12 |
| | 33 | 33 |

**Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)**

## 10. Enillion y Cyfarwyddwyr

Dyma enillion y cyfarwyddwyr:

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Ffioedd | 53,875 | 59,675 |
| Treuliau | 5,388 | 1,538 |
| | 59,263 | 61,213 |
| | ====== | ======= |

Ni wnaed dim taliadau i'r Cyfarwyddwyr fel rhan o gynlluniau pensiwn personol.

## 11. Treth

Treth ar incwm cyllid. Nodir y dreth a godwyd isod:

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Treth a godwyd ar gyfer y cyfnod | 299 | 10 |
| | ===== | ===== |

Cysoni cyfanswm y dreth a godwyd:
Nid yw'r cwmni'n ymgymryd ag unrhyw weithgareddau masnachu. Yr unig incwm y telir y dreth gorfforaethol arno yw incwm cyllid.

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| Incwm cyllid | 1,573 | 52 |
| | ===== | ===== |
| Treth sy'n cael ei chodi ar gyfradd treth gorfforaethol y DU o 19% (2022: 19%) | | |
| | 299 | 10 |
| | ===== | ===== |

## 12. Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

Roedd Eiddo, Offer a Chyfarpar yn cynnwys:

| | Tir Rhydd-ddaliadol Ac Eiddo | Cyfarpar Swyddfa | Cerbydau Modur | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Cost neu Brisiad** | | | | |
| 1 Ebrill 2021 | 600,000 | 101,316 | 19,278 | 720,594 |
| Ychwanegiadau | - | 73,795 | - | 73,795 |
| Gwarediadau | - | (11,063) | (14,788) | (25,851) |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 600,000 | 164,048 | 4,490 | 768,538 |
| Ychwanegiadau | - | 11,337 | - | 11,337 |
| Gwarediadau | - | (9,393) | - | (9,393) |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 600,000 | 165,992 | 4,490 | 770,482 |

**Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)**

**12. Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar (parhad)**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dibrisiant** | | | | |
| 1 Ebrill 2021 | - | 74,709 | 10,676 | 85,385 |
| Swm a godir am y flwyddyn | 25,556 | 17,038 | 953 | 43,547 |
| Gwarediadau | - | (10,218) | (8,549) | (18,767) |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 25,556 | 81,529 | 3,080 | 110,165 |
| Swm a godir am y flwyddyn | 25,556 | 19,650 | 315 | 45,521 |
| Gwarediadau | - | (7,194) | - | (7,194) |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 51,112 | 93,985 | 3,395 | 148,492 |
| **Gwerth Llyfr Net** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 548,888 | 72,007 | 1,095 | 621,990 |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 574,444 | 82,519 | 1,410 | 658,373 |

Cafodd gwerth marchnad yr adeilad ei brisio gan brisiwr annibynnol ar 31 Mawrth 2021 ar werth o £600,000. Gwnaed hyn ar sail meddiant gwag rhydd-ddaliadol gan RJ Chartered Surveyors, gan gymryd cyfnod marchnata o ddwy flynedd. Pe byddai'r adeilad wedi cael ei gario dan y model costau, byddai'r swm cario a gydnabuwyd ar 31 Mawrth 2023 wedi bod yn £560,752
(2022: £587,633).
Gwnaed adolygiad amhariad o'r eiddo, yr offer a'r cyfarpar ac ni ddatgelodd fod angen cofnodi ffi amhariad na newid y cyfraddau dibrisio a ddefnyddir ar hyn o bryd.

**Asedau Anniriaethol**

Gwnaed ychwanegiadau o £10,145 (2022:£dim) mewn perthynas â diweddariadau meddalwedd cyfrifo yn ystod y flwyddyn. Yn unol â'r polisi cyfrifyddu, cawsant eu dileu'n llawn yn ystod y flwyddyn.

**13. Asedau Hawl eu Defnyddio**

Roedd yr Asedau Hawl eu Defnyddio yn cynnwys:

| | **Tir Rhydd-ddaliadol ac Eiddo** | **Cerbydau Modur** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** |
| **Cost neu Brisiad** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 317,467 | 32,858 | 350,325 |
| Addasiad prisio | 278 | (209) | 69 |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 317,745 | 32,649 | 350,394 |
| Addasiad prisio | (7,792) | (352) | (8,144) |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 309,953 | 32,297 | 342,250 |

## Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)

### 13. Asedau Hawl eu Defnyddio (parhad)

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Dibrisiant** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 65,935 | 17,085 | 83,020 |
| Swm am y flwyddyn | 37,982 | 8,163 | 46,145 |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 103,917 | 25,248 | 129,165 |
| Swm am y flwyddyn | 40,898 | 7,049 | 47,947 |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 144,815 | 32,297 | 177,112 |
| **Gwerth Llyfr Net** | | | |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 165,138 | - | 165,138 |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 213,828 | 7,401 | 221,229 |

Mae HCC yn prydlesu eiddo a cherbydau. Caiff yr asedau hyn eu prydlesu i gyd-fynd â natur hanfodol ei incwm.

### 14. Symiau Derbyniadwy drwy Fasnach a Symiau Derbyniadwy Eraill

Roedd y Symiau Derbyniadwy drwy Fasnach a'r Symiau Derbyniadwy Eraill yn cynnwys:

| | **2023** | **2022** |
|---|---|---|
| | **£** | **£** |
| Derbyniadau | 1,092 | 3,822 |
| Incwm ardoll sy'n ddyledus | 297,197 | 302,599 |
| Dyledwyr eraill | 63,253 | - |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 1,627,439 | 2,231,253 |
| Swm sy'n ddyledus o gwmni'r grŵp (nodyn 23) | 33,022 | 11,377 |
| | 2,022,003 | 2,639,051 |

Mae'r Cyfarwyddwyr o'r farn bod y gwerth ar y llyfrau yn frasamcan o'r gwir werth.
Cyfartaledd y cyfnod credyd yw 45 diwrnod (2022: 37 diwrnod).
Caniatawyd ar gyfer symiau anadferadwy amcangyfrifedig o incwm ardoll dyledus gwerth £dim (2022:£16,667). Cyrhaeddwyd y swm hwn ar ôl adolygu hanes talu dyledwyr unigol ar ddyddiad y fantolen, ac mae'n cynrychioli darpariaethau yn erbyn y symiau cario perthnasol.
Mae dadansoddiad o'r symudiad ar y lwfans i'w weld isod:

| | **2023** | **2022** |
|---|---|---|
| | **£** | **£** |
| Ar 1 Ebrill | 16,667 | 75,059 |
| Dyled a ddilëwyd | - | - |
| Adferwyd | (16,667) | (58,392) |
| Lwfans ychwanegol | - | - |
| Ar 31 Mawrth | - | 16,667 |

## Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)

### 14. Symiau Derbyniadwy drwy Fasnach a Symiau Derbyniadwy Eraill (parhad)

Mae'r Cyfarwyddwyr yn fodlon bod modd adennill holl gredyd y dyledwyr eraill yn llawn.

Mae'r tabl canlynol yn dadansoddi'r symiau derbyniadwy a oedd heb eu talu ar 31 Mawrth 2023, ond heb amhariad. Ar ôl ystyried hanes taliadau yn y gorffennol, mae'r Cwmni o'r farn bod y balansau yn adferadwy yn y pen draw.

| | | 2023 | 2022 |
|---|---|---|---|
| | | £ | £ |
| Hyd at 3 mis oed (2022: 3 mis) | | | |
| | : derbyniadau | - | - |
| | : incwm o ardoll | 24,675 | 71,149 |
| Dros 3 mis oed | | 10,000 | - |
| | | 34,675 | 71,149 |

Derbyniwyd £17,750 ar ôl diwedd y flwyddyn.

Wedi'i gynnwys fel rhan o'r rhagdaliadau a'r incwm cronedig mae £1,168,399 (2022: £1,977,196) sy'n ymwneud â gwariant grant. Mae derbyniadau drwy fasnach a derbyniadau eraill yn cynnwys asedau ariannol gwerth £298,288 (2022: £306,421) sy'n cael eu categoreiddio fel benthyciadau a derbyniadau.

Rheoli risg ariannol:

Risg Credyd
Mae risg credyd y cwmni'n deillio'n bennaf o'i falansau o'r incwm ardoll sy'n ddyledus. Gan fod yr ardoll yn dâl statudol sy'n seiliedig ar yr holl anifeiliaid sy'n cael eu lladd ar gyfer y gadwyn fwyd, nid yw HCC yn gallu asesu teilyngdod credyd proseswyr cyn iddynt ddechrau masnachu. Er mwyn lleihau'r risg, mae HCC yn dilyn y gweithdrefnau manwl ar gyfer rheoli credyd.

Risg Hylifedd
Mae'r cwmni'n cadw llygad barcud drwy'r amser ar ei falansau arian o'i gymharu â'i ymrwymiadau dyledus i sicrhau fod ganddo ddigon o arian i dalu rhwymedigaethau'r cwmni pan ddaw'n amser eu talu.

Risg Cyfalaf
Nid yw'r cwmni'n gallu pennu incwm; yn hytrach, pennir cyllidebau gan y Bwrdd bob blwyddyn ar gyfer gwariant arfaethedig, ac yna caiff y cyllidebau hyn eu monitro. Trosglwyddir unrhyw warged i'r cronfeydd wrth gefn.

**Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)**

**15. Taliadau drwy Fasnach a Thaliadau Eraill**

Roedd y Symiau Taladwy drwy Fasnach a'r Symiau Taladwy Eraill yn cynnwys:

| | **2023** | **2022** |
|---|---|---|
| **Symiau dyledus o fewn blwyddyn** | **£** | **£** |
| Treth o fath arall a nawdd cymdeithasol | 42,329 | 101,569 |
| Symiau Taladwy Eraill | 641,709 | 934,667 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 519,590 | 206,338 |
| | 1,203,628 | 1,242,574 |
| | ======= | ======= |

Mae symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill yn cynnwys rhwymedigaethau ariannol o £851,921 (2022: £1,141,005) sy'n cael ei gategoreiddio fel rhwymedigaethau ariannol eraill yn ôl cost wedi'i hamorteiddio.

**16. Rhwymedigaethau Prydlesau Hawl eu Defnyddio**

| | **2023** | **2022** |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 243,433 | 280,239 |
| Addasiad prisio | (8,144) | 69 |
| Ailddatgan | 3,712 | - |
| Ad-daliadau | (48,982) | (45,433) |
| Costau cyllid | 16,068 | 8,558 |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 206,087 | 243,433 |
| Prydlesau sy'n ddyledus: | | |
| O fewn blwyddyn | 29,489 | 40,503 |
| O fewn 5 mlynedd | 100,597 | 111,228 |
| Dros 5 mlynedd | 76,001 | 91,702 |
| | 176,598 | 202,930 |

Mae'r ailddatganiad yn codi oherwydd eglurhad o hyd y brydles ar gyfer un o'r eiddo. Nid yw hyn yn cael unrhyw effaith sylweddol ar werth yr ased.

**17. Cyfalaf Cyfranddaliadau**

Mae'r cwmni'n gwmni cyfyngedig drwy warant ac nid oes ganddo unrhyw gyfalaf cyfranddaliadau. Cyfyngir atebolrwydd yr aelod i £100.

## Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)

### 18. Arian Wrth Gefn

| | Incwm |
|---|---|
| | £ |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 1,917,010 |
| Diffyg ar gyfer y flwyddyn | (76,084) |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 1,840,926 |
| Diffyg ar gyfer y flwyddyn | (150,087) |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 1,690,839 |
| | ======= |

Delir arian wrth gefn i dalu am weithgareddau'r cwmni i'r dyfodol, gan gynnwys amgylchiadau annisgwyl.

### 19. Trefniadau prydlesau gweithredol

Ymrwymiadau prydlesau gweithredol na ellir eu canslo:
Ar ddyddiad y fantolen, roedd gan y Cwmni ymrwymiadau'n ddyledus ar gyfer taliadau prydles lleiaf i'r dyfodol, dan brydlesau gweithredol na ellir eu canslo. Mae'r rhain yn ddyledus fel a ganlyn:

| | | 2023 | 2022 |
|---|---|---|---|
| | | £ | £ |
| O fewn blwyddyn | - cyfarpar | 4,512 | 4,759 |
| O fewn pum mlynedd | - cyfarpar | 10,228 | 16,563 |
| | | 14,740 | 21,322 |
| | | ===== | ===== |

Y prif eitemau sy'n cael eu prydlesu yw cyfarpar swyddfa.
Ymdrinnir â'r prydlesau hyn fel prydlesau gweithredol ac ni chânt eu cydnabod ym mantolen y cwmni gan eu bod yn isel eu gwerth, fel y diffinnir yn y polisi cyfrifo. Mae taliadau dan brydlesau gweithredol yn cael eu rhoi ar y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr fel llinell syth dros gyfnod y brydles.

### 20. Ymrwymiadau Cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2023 roedd y gwariant cyfalaf a gymeradwywyd ac a ymrwymwyd yn £dim (2022: £dim).

### 21. Rhwymedigaethau Digwyddiadol

Mae'r cwmni'n ymwybodol o rwymedigaeth ddigwyddiadol sy'n £390,000 (2022: £711,000). Mae'r rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn codi o ddarpariaethau a75 o Ddeddf Pensiynau 1995, ac mae'n seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar 31 Mawrth 2023. Nid oes unrhyw brisiadau dilynol wedi'u paratoi gan y cwmni pensiwn.

**Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)**

**21. Rhwymedigaethau Digwyddiadol (parhad)**

Mae HCC yn gyflogwr cyfrannog yng Nghynllun Pensiwn y Comisiwn Cig a Da Byw er sicrwydd ei weithwyr cyflogedig a'i gyn-weithwyr. Gall rhwymedigaeth godi i dalu cyfran o unrhyw ddiffyg s75 mewn cynllun os bydd Prif Gyflogwr y Cynllun yn dirwyn y cynllun hwn i ben. Cyfrifwyd amcangyfrif o'r atebolrwydd hwn ar 31 Mawrth 2023 ac mae'n £390,000.

Mae Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 37 yn datgan y driniaeth gyfrifyddu ar gyfer darpariaethau ac eitemau digwyddiadol. Yn benodol, mae'r safon yn pennu tri o ofynion i rwymedigaeth gael ei chofnodi fel darpariaeth a'i nodi felly ym mantolen y cwmni. Cydnabyddir bod gan HCC rwymedigaeth i'r dyfodol i fodloni'r ddyled hon, sy'n codi o'r gorffennol pan oedd staff yn cronni buddiannau yn y Cynllun tra'r oeddent yn gyflogedig. Mae'n bosibl y bydd y rhwymedigaeth honno'n gofyn am all-lif o adnoddau pan fydd y rhwymedigaeth yn crisialu. Fodd bynnag, y trydydd gofyn yw ei bod yn rhaid cael amcangyfrif dibynadwy, ac ym marn y Cyfarwyddwyr, nid yw'r gofyn hwn yn cael ei fodloni. Roedd yr amcangyfrif ym mis Mawrth 2023 yn £390,000 ac ym mis Mawrth 2020 yn £711,000. Roedd yr amcangyfrifon ar gyfer y 4 blynedd blaenorol yn amrywio o £490,000 i £609,000. O'r cyngor pellach a gafwyd, byddai'n ymddangos y gallai amrywiadau o'r fath ddigwydd o un flwyddyn i'r llall. Ym marn y Cyfarwyddwyr nid yw hwn yn darparu amcangyfrif dibynadwy.
Ar y sail honno, datgelir y rhwymedigaeth bosibl fel rhwymedigaeth ddigwyddiadol ac nid fel darpariaeth.

**22. Trafodion Partïon Perthynol**

Gydol y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023, Llywodraeth Cymru oedd yr unig aelod o'r cwmni a'r parti â'r rheolaeth eithaf.

Mae'r cwmni'n cael cyllid drwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020, sy'n cael ei reoli gan Lywodraeth Cymru, ac roedd £2,640,247 (2020:£1,980,227) yn dderbyniadwy yn ystod y flwyddyn. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd £1,168,398 (2022:£1,962,558) yn ddyledus, a oedd yn ymwneud â gwariant grant nad oedd wedi'i ad-dalu eto. Mae'r swm hwn yn net o flaendaliad o £700,000 a fydd yn cael ei dynnu o'r taliad grant terfynol.
Oherwydd oedi wrth dalu hawliadau yn ystod tymor y prosiect, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu cyfleuster i HCC dynnu arian pan fo angen. Mae'r cyfleuster werth £1m hyd at 31 Mawrth 2024. Yn ystod y flwyddyn, tynnwyd i lawr ac ad-dalwyd £750,000 yn ystod y flwyddyn.
Roedd cyfanswm cyllid uniongyrchol o £83,630 (2022:£100,000) hefyd yn dderbyniadwy gan Lywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo allforio. Roedd £83,630 (2022:£dim) yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn.
Mae trafodion a balansau sy'n ymwneud â'r is-gwmni, EIDCYMRU, yn cael eu rhannu ar wahân yn Nodyn 23.

## Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)

### 23. Mentrau Ategol

Y cwmni yw unig aelod, fel gwarant, EIDCYMRU, sy’n gwmni cyfyngedig drwy warant sydd â’i brif leoliad busnes ym Mharc Merlin, Aberystwyth. Mae’r cwmni wedi’i gofrestru yng Nghymru. Mae’n gweithredu'n bennaf fel swyddfa ar gyfer cofnodi symudiadau defaid yn electronig yng Nghymru. Caiff EIDCYMRU ei ariannu’n llawn gan Lywodraeth Cymru, a chaiff y cyfryw gyllid ei ddarparu fel taliadau.

Yn ystod y flwyddyn, ailgododd Hybu Cig Cymru gostau’n ymwneud â gweithgareddau EIDCYMRU oedd werth £82,138 (2020: £98,104). Ar ddiwedd y flwyddyn mae £33,022 (2022:£11,377) yn ddyledus.

### 24. Cynlluniau Pensiwn

**Cynllun Pensiwn Personol Grŵp Hybu Cig Cymru**

Cyfrannodd y cwmni at gynlluniau pensiwn personol unigol ar gyfer rhai o’i weithwyr. Caiff cyfraniadau eu rhoi ar y datganiad o incwm cynhwysfawr fel y maent yn digwydd ac roedd y cyfanswm yn £77,420 (2022:£68,849). Roedd cyfraniadau gwerth £9,712 (2022: £5,543) heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

**Cynllun Pensiwn y Comisiwn Cig a Da Byw**

Yn ystod y flwyddyn at 31 Mawrth 2022, cyfrannodd y cwmni at gynllun pensiwn diffiniedig hefyd sy’n cael ei redeg gan y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth. Caeodd y cynllun i groniad yn y dyfodol o 31 Mawrth 2022 ac mae’r aelodau bellach wedi’u gohirio.

Cyfanswm y cyfraniadau a dalwyd yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022 oedd £152,962 ac roedd cyfraniadau dyledus ar ddiwedd y flwyddyn 31 Mawrth 2022 o £3,997. Roedd y gost hon yn seiliedig ar werthusiad actiwaraidd ar 31 Mawrth 2018. Roedd cyfraniadau cyflogwr yn daladwy ar gyfradd o 27% o gyflogau pensiynadwy. Roedd y cyfraniadau yn y flwyddyn honno yn cynnwys prynu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth i'r gweithwyr wrth i'r cynllun gau i groniad yn y dyfodol.

Nid oes gwybodaeth ar gael ynghylch sut mae asedau’r cynllun yn cael eu rhannu rhwng y cyflogwyr cyfrannog. O ganlyniad, nid yw'r cwmni yn gallu ystyried y cynllun fel cynllun buddion diffiniedig ac fe’i ystyrir fel petai’n gynllun cyfraniadau diffiniedig. Ar 31 Mawrth 2023, cyfrifwyd gan IAS19 bod gwerth marchnad holl asedau’r cynllun pensiwn yn £150.1m (2022: £196.5m) sy’n ddigon i dalu am 103.0% (2022: 102.9%) o werth y buddion a oedd wedi cronni i’r aelodau, ar ôl caniatáu ar gyfer cynnydd mewn enillion.

Mae gwybodaeth bellach am y rhwymedigaeth a allai godi pan na fydd y cwmni’n cyflogi neb o fewn y cynllun hwn mwyach i’w gweld yn nodyn 21.